WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Cynllunio i Ryddhau Cleifion – **Ymddiriedolaeth GIG Felindre**

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 170A2017-18

Lluniwyd y ddogfen hon yn rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru - swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Cyflawnwyd y gwaith hwn gan Elaine Matthews.

# Cynnwys

Mae'r Ganolfan Ganser yn cymryd camau i atgyfnerthu trefniadau ar gyfer cynllunio i ryddhau cleifion er bod y data i fonitro ac adrodd ar berfformiad ar raddfa'r Ganolfan Ganser a'r Ymddiriedolaeth yn brin.


Adroddiad cryno

Y Cefndir 4

Y Prif Ganfyddiadau 6

Argymhellion 7

Adroddiad manwl

Rhan 1: Cynllunio: Mae'r Ganolfan Ganser yn cymryd camau i wella’r broses o gynllunio i ryddhau cleifion, ac newydd gychwyn datblygu polisïau a llwybrau rhyddhau 9

Rhan 2: Trefniadau i gefnogi rhyddhau cleifion: Mae staff y Ganolfan Ganser yn datblygu prosesau ac adnoddau i gefnogi cynlluniau rhyddhau effeithiol 17

Rhan 3: Monitro ac adrodd: Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth ddigon o wybodaeth i fonitro trefniadau rhyddhau er bod trefniadau atebolrwydd clir wedi'u nodi yn y polisi rhyddhau drafft 26

Atodiadau

Atodiad 1 – canfyddiadau meintiol Uned Gyflawni GIG Cymru o archwiliadau o gynlluniau rhyddhau mewn ysbytai acíwt yn ardal de ddwyrain Cymru 31

Atodiad 2 – dull archwilio 39

Atodiad 3 – ymateb rheolwyr yr Ymddiriedolaeth i'r argymhellion 41

# Adroddiad cryno

## Y Cefndir

1 Proses barhaus i ganfod y gwasanaethau a'r gefnogaeth y gallai unigolyn fod eu hangen wrth adael yr ysbyty (neu wrth symud rhwng ysbytai) yw cynllunio i ryddhau. Y nod yw sicrhau bod y gofal cywir ar gael, yn y man cywir, ac ar yr amser cywir. Mae proses ryddhau effeithiol ac effeithlon yn ffactor pwysig mewn llif cleifion da ac yn allweddol i sicrhau gofal cleifion da a defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau'r GIG. Llif cleifion yw'r llif o gleifion rhwng staff, adrannau a sefydliadau eraill ar hyd llwybr gofal, o fod wedi cyrraedd yr ysbyty hyd at ryddhau neu drosglwyddo.

2 Mae gwelyau mewn ysbytai o dan bwysau cynyddol, yn enwedig gan fod 1,800 o welyau wedi cael eu colli ar draws Cymru dros y chwe blynedd diwethaf. Gall cynllunio gwael wrth ryddhau cleifion olygu arosiadau hwy diangen, sydd yn eu tro yn amharu ar rannau eraill o'r ysbyty, gan greu amseroedd aros hirach mewn adrannau damweiniau ac achosion brys neu ganslo derbyniadau cynlluniedig.

3 Bob blwyddyn,ledled Cymru bydd cleifion yn cael eu derbyn a'u rhyddhau o'r ysbyty tua 750,000 o weithiau. Mae'r broses ryddhau yn gymharol syml i 80% o'r cleifion sy'n gadael yr ysbyty. Gall y cleifion hyn ddychwelyd adref heb unrhyw anghenion iechyd neu ofal cymdeithasol eraill, neu gyda lefel isel o anghenion nad oes angen cynlluniau na threfniadau cyflenwi cymhleth i'w bodloni. I'r 20% o gleifion sy'n weddill, mae cynllunio i ryddhau yn broses fwy cymhleth oherwydd anghenion iechyd ac/neu ofal cymdeithasol parhaus, a allai fod yn anghenion tymor byr neu dymor hir.

4 Yn achos cleifion unigol, y mae llawer ohonynt yn 65 oed neu'n hŷn, gall oedi wrth ryddhau o'r ysbyty arwain at ganlyniadau salach yn sgil colli annibyniaeth, hyder a'r gallu i symud, yn ogystal â risg o gael heintiau yn yr ysbyty. Efallai y bydd angen eu derbyn eto i'r ysbyty, neu y bydd angen rhoi cymorth hirdymor iddynt.

5 Ymddiriedolaeth GIG Felindre (yr Ymddiriedolaeth) yw'r corff iechyd sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros Ganolfan Ganser Felindre (Y Ganolfan Ganser). Mae'r Ganolfan Ganser yn darparu gwasanaethau canser arbenigol i fwy nag 1.5 miliwn o bobl yn ne ddwyrain Cymru a thu hwnt.[1] Bob blwyddyn bydd y Ganolfan Ganser yn derbyn dros 5,000 o atgyfeiriadau newydd, yn darparu tua 50,000 o apwyntiadau i gleifion allanol newydd ac yn derbyn tua 2,000 o gleifion i'w wardiau ar gyfer cleifion mewnol. Caiff 30% o gleifion eu derbyn ar gyfer triniaeth ddewisol lle mae'n rhaid iddynt aros fel claf mewnol, fel arfer ar gyfer cwrs o gemotherapi (therapi gwrthganser systemig (SACT)). Fodd bynnag, mae mwyafrif y derbyniadau heb eu trefnu, ac yn deillio o heintiau, effaith wenwynol SACT, neu ofal lliniarol a gofal diwedd oes. Mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar y trefniadau i ryddhau'r cleifion mewnol hyn ym maes oncoleg acíwt.

[1] Daw mwyafrif y cleifion sy'n mynychu Canolfan Ganser Felindre o Gaerdydd, Bro Morgannwg, Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Gwent a de Powys.

6 Er gwaethaf y llu o ganllawiau i gefnogi cynlluniau rhyddhau da,[2, 34] dangosai gwaith a gyflawnwyd yn 2016 gan Uned Gyflawni GIG Cymru (yr Uned Gyflawni) yn holl ysbytai Cymru, ar wahân i Ganolfan Canser Felindre, fod cyfleoedd i wella'r broses cynllunio i ryddhau cleifion, i ryddhau capasiti sylweddol i gleifion mewnol ac i wella profiadau a chanlyniadau cleifion. Roedd meysydd penodol i'w gwella yn cynnwys:

- gweithio'n well gyda gwasanaethau cymunedol;
- nodi'n gliriach ac yn gynharach y cymhlethdod yn gysylltiedig â rhyddhau o'r ysbyty, fel bo modd hwyluso'r broses ryddhau;
- mwy o eglurder ynghylch llwybrau rhyddhau[5]; a
- gwell gwybodaeth a chyfathrebu â chleifion a'u teuluoedd.

7 Asesodd yr Uned Gyflawni y dystiolaeth ysgrifenedig mewn nodiadau achos yn erbyn gofynion penodol a nodir yn 'Passing the Baton' (gweler troednodyn 3) ar gyfer ysbytai acíwt de ddwyrain Cymru lle mae llawer o gleifion y Ganolfan Ganser yn byw ac yn derbyn cefnogaeth barhaus ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r canfyddiadau ar gyfer ysbytai ym Myrddau Prifysgol Aneurin Bevan, Caerdydd a'r Fro a Chwm Taf yn dangos bod y broses o ryddhau cleifion gan amlaf yn wael o'i hasesu yn erbyn arferion disgwyliedig. Roedd y canfyddiadau ar gyfer ysbytai cymunedol Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn gymysg. Mae canfyddiadau'r Uned Gyflawni wedi'u nodi'n fanylach yn Atodiad 1.

8 Mae llawer o'r materion a amlygwyd gan yr Uned Gyflawni wedi bod yn themâu cyffredin ers blynyddoedd, a phrin yw'r dystiolaeth i awgrymu bod prosesau cynllunio i ryddhau cleifion yn gwella go iawn. Gan fod y galw am wasanaethau ysbyty ar gynnydd a'r capasiti gwelyau yn parhau i ostwng, penderfynodd yr Archwilydd Cyffredinol ei bod hi'n bryd adolygu a yw trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd yn ddigon cadarn i sicrhau bod y gwelliannau angenrheidiol yn cael eu cyflwyno i gynlluniau rhyddhau cleifion.

9 Yn unol â hynny, archwiliai ein hadolygiad a oedd gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd cadarn ar waith yn gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion â chyflyrau acíwt. Ceir manylion y fethodoleg archwilio yn Atodiad 2. Yn ein gwaith, gofynnwyd yn benodol a yw'r Ymddiriedolaeth:

- wedi sefydlu fframwaith cynllunio strategol cadarn er mwyn cynllunio i ryddhau cleifion;
- wedi gwneud trefniadau effeithiol i fonitro ac adrodd ar gynlluniau i ryddhau cleifion; ac
- wedi cymryd camau priodol i reoli cynlluniau rhyddhau cleifion a sicrhau gwelliannau.

10 Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd wedi bod yn cynnal adolygiad o addasiadau tai. Mae'r adolygiad yn canolbwyntio'n bennaf ar awdurdodau lleol a landlordiaid

[2] Cylchlythyr Iechyd Cymru (2005), **Hospital Discharge Planning  Guidance**, 2005/035 [Saesneg yn unig]

[3]Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd (2008), **Passing the Baton**

[4] Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Rhagoriaeth Glinigol (2015), **Transition between inpatient hospital settings and community or care home settings for adults with social care needs**

[5] Gall llwybrau rhyddhau penodol nodi'r gyfres o gamau y mae angen eu cymryd ac amseriad ymyraethau gan weithwyr proffesiynol gofal iechyd ar gyfer grwpiau penodol o gleifion, yn enwedig rhai ag anghenion cymhleth, er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau mewn modd diogel ac amserol.

cymdeithasol cofrestredig, o ystyried cyfrifoldebau'r naill a'r llall dros reoli a dyrannu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, Grantiau Addasiadau Ffisegol a ffrydiau ariannu eraill a ddefnyddir i ariannu addasiadau. Ceir cysylltiadau clir rhwng hyn a chynlluniau rhyddhau cleifion o ystyried y ffaith y gall oedi wrth osod neu ariannu addasiadau tai arwain at oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty. Yn ogystal â hyn, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi bod yn archwilio ansawdd y llif cyfathrebu a gwybodaeth rhwng gofal sylfaenol a gofal eilaidd yng nghyswllt rhyddhau cleifion. Bwriedir cyhoeddi'r adroddiadau, sy'n nodi canfyddiadau'r ddau adolygiad, yn nhymor yr hydref 2017.

# Y prif ganfyddiadau

11 Dyma ein casgliad cyffredinol: Mae'r Ganolfan Ganser yn cymryd camau i atgyfnerthu trefniadau ar gyfer cynllunio i ryddhau cleifion er gwaethaf diffyg trefniadau i fonitro ac adrodd ar berfformiad ar raddfa'r Ganolfan Ganser a'r Ymddiriedolaeth yn brin. Yn y paragraffau isod, rydym wedi nodi'r prif resymau dros ddod i'r casgliad hwn.

12 **Cynllunio:** Mae'r Ganolfan Ganser yn cymryd camau i wella’r broses o gynllunio i ryddhau cleifion, ac newydd ddechrau datblygu polisïau a llwybrau rhyddhau. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae gan y Ganolfan Ganser gynlluniau i wella'r trefniadau ar gyfer rhyddhau cleifion ond mae'r gwelliannau'n ddibynnol ar ddarparwyr eraill y mae pwysau ar eu gwasanaethau hwythau;
- mae polisi newydd wedi cael ei ddatblygu ar gyfer rhyddhau cleifion, ond mae angen gwneud gwaith pellach ar hyn; ac
- nid yw'r Ganolfan Ganser wedi cofnodi'r llwybrau rhyddhau sy'n cefnogi cynllunio i ryddhau cleifion eto.

13 **Trefniadau i gefnogi rhyddhau cleifion:** Mae staff y Ganolfan Ganser yn datblygu prosesau ac adnoddau sy'n cefnogi proses gynllunio effeithiol i ryddhau cleifion. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- arweinir y broses o gynllunio i ryddhau cleifion gan nyrsys ward gyda chefnogaeth y tîm amlddisgyblaeth - dull cymharol newydd sydd heb ei werthuso eto;
- nid oes unrhyw ardal benodol lle gall cleifion mewnol neu gleifion dydd aros i gael eu rhyddhau; ac
- mae staff y ward yn casglu a diweddaru gwybodaeth am y nifer o wasanaethau y tu allan sydd eu hangen i hwyluso rhyddhau cleifion a threfnir hyfforddiant pellach ymhellach ar ôl i'r polisi rhyddhau gael ei gwblhau.

14 **Monitro ac adrodd:** Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth ddigon o wybodaeth i fonitro trefniadau rhyddhau cleifion er bod trefniadau atebolrwydd clir wedi'u nodi yn y polisi drafft ar ryddhau cleifion. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae'r atebolrwydd dros ryddhau cleifion yn ddiogel a phrydlon yn glir;
- mae'r data ar gyfer craffu ar berfformiad wrth ryddhau cleifion yn brin, ac nid ydynt wedi'u cyflwyno mewn modd ystyrlon; ac
- nid yw aelodau'r bwrdd yn teimlo eu bod yn gwybod digon am berfformiad wrth gynllunio i ryddhau cleifion.

# Argymhellion

Dangosyn 1: argymhellion

Mae'r tabl yn nodi'r argymhellion sy'n deillio o'n harchwiliad. Mae ymateb rheolwyr yr Ymddiriedolaeth, sy'n esbonio sut maent yn bwriadu ymateb i'r argymhellion hyn, wedi'i gynnwys yn Atodiad 3.

| Argymhellion | |
|---|---|
| A1 | **Datblygu'r polisi rhyddhau cleifion:** Mae'r Ganolfan Ganser yn datblygu polisi newydd ar gyfer rhyddhau cleifion. Er ei fod yn ddrafft cyntaf cadarnhaol, gallai'r Ymddiriedolaeth ychwanegu sawl agwedd er mwyn cefnogi proses ryddhau cleifion ddiogel ac amserol. Dyma nhw:<br>a. Yn yr adran ar Berchenogaeth a Chyfrifoldebau,<br>– nodi rôl y 'nyrs ryddhau' sy'n gyfrifol am drefnu i ryddhau cleifion;<br>– nodi rôl y tîm gofal lliniarol wrth gynllunio i ryddhau cleifion; ac<br>– ychwanegu mwy o fanylion ynghylch pwy sy'n gyfrifol am y broses uwchgyfeirio pan fydd perygl i'r claf wynebu oedi cyn cael ei ryddhau.<br>b. Ychwanegu adran ar y broses ar gyfer rheoli cleifion y gellid tybio eu bod yn agored i niwed oherwydd amgylchiadau cymdeithasol fel digartrefedd.<br>c. Ychwanegu adran ar gyfer y cleifion hynny sy'n bodloni'r diffiniad o oedolyn sy'n agored i niwed o dan Bolisi a Gweithdrefnau Interim Cymru ar gyfer Amddiffyn Oedolion Hawdd eu Niweidio rhag cael eu Cam-drin (2010).<br>d. Cofnodi'r gofyniad i'r tîm gofal cefnogol atgyfeirio'r holl gleifion i dderbyn asesiad gofalwr ffurfiol.<br>e. Rhoi diffiniad manylach o bob categori rhyddhau, gan gynnwys siart lif neu goeden benderfyniadau er mwyn dewis y llwybr rhyddhau mwyaf priodol.<br>f. Cyfeirio mewn modd eglur at y ffeil o wybodaeth a ffurflenni rhyddhau cleifion, a ddatblygwyd gan staff ward ac a ddefnyddiwyd yn llwyddiannus i gefnogi'r broses ryddhau.<br>g. Cofnodi'r weithdrefn ar gyfer cadw'r ffeil o wybodaeth a ffurflenni rhyddhau yn gyfredol.<br>h. Datblygu'r adran ar reoli meddyginiaethau ymhellach i gynnwys rôl fferyllwyr yn y broses ryddhau.<br>i. Darparu hyfforddiant ar y polisi i staff yn y tîm amlddisgyblaeth ar ôl iddo gael ei gwblhau. |

| Argymhellion | |
|---|---|
| A2 | **Ymgynghoriad ar ddrafft y polisi rhyddhau cleifion:** Er bod y Polisi Rhyddhau Cleifion yn dal ar ffurf drafft, dylai'r Ymddiriedolaeth rannu'r drafft hwnnw er mwyn iddo gynnwys safbwyntiau rhanddeiliaid allweddol, yn enwedig:<br>• nyrsys ardal wedi'u lleoli mewn byrddau iechyd lleol;<br>• staff arweiniol o fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am storfeydd cyfarpar; a<br>• chleifion a gofalwyr. |
| A3 | **Gwybodaeth ar gyfer monitro trefniadau rhyddhau cleifion:** Ni fydd gwybodaeth am achosion o oedi cyn trosglwyddo gofal (OwDG) yn cael ei hadrodd wrth y Bwrdd yn aml, gan fod y niferoedd yn isel. Yn ogystal ag adrodd ar y DPA i gynyddu nifer y cleifion sydd yn marw mewn lleoliad o'u dewis a chynyddu nifer y cleifion sy'n cael mynediad i'r man gofal y maent yn eu ffafrio, dylai'r Ymddiriedolaeth ystyried casglu ac adrodd yr wybodaeth ganlynol gerbron y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch:<br>a. % y cleifion sy'n cael eu rhyddhau cyn pen 24 awr a chyn pen 72 awr ar ôl cyrraedd 'cyflwr clinigol optimaidd';<br>b. nifer yr achosion o oedi cyn trosglwyddo cleifion i ysbytai eraill, cartrefi gofal neu eu cartref; a<br>c. phroblemau wrth ryddhau cleifion fel y'u cofnodir ar system diogelwch cleifion Datix. |
| A4 | **Data rhyddhau cleifion o'r system gweinyddu cleifion:** Nid yw'r system gyfredol, CaNISC, yn cynnwys y cyfleuster i gipio data ynghylch natur achosion rhyddhau, nac achosion o oedi wrth ryddhau. Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau y gall unrhyw system gweinyddu cleifion newydd gipio gwybodaeth er mwyn monitro ac adrodd ar berfformiad yn gysylltiedig â phrosesau a chynlluniau rhyddhau cleifion. |

# Adroddiad manwl

## Rhan 1: Mae'r Ganolfan Ganser yn cymryd camau i wella'r broses o gynllunio i ryddhau cleifion, ac newydd gychwyn datblygu polisïau a llwybrau rhyddhau

### Mae gan y Ganolfan Ganser gynlluniau i wella'r trefniadau ar gyfer rhyddhau cleifion ond mae'r gwelliannau'n ddibynnol ar ddarparwyr eraill y mae pwysau ar eu gwasanaethau hwythau

15 Ym mis Hydref 2016, ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon at holl Gadeiryddion y GIG er mwyn cadarnhau ei fod yn disgwyl i gynlluniau gwella gofal heb ei drefnu gynnwys cynlluniau i wella prosesau rhyddhau. Mae Fframwaith Cynllunio GIG Cymru[6] hefyd yn cyfleu'n glir y dylai sefydliadau nodi sut mae eu cynlluniau yn cefnogi ac yn gwella llif cleifion. Dylid canolbwyntio ar leihau'r nifer o bobl oedrannus a bregus sy'n cael eu derbyn, drwy asesu ac ymyrryd mewn modd rhagweithiol, a rhyddhau cleifion mor fuan ag sy'n briodol o safbwynt clinigol, heb unrhyw oedi diangen.

16 Yn rhan o'n gwaith archwilio, buom yn asesu'r graddau y mae cynllunio i ryddhau cleifion yn rhan o ymagwedd strategol ehangach i wella llif cleifion. Gwelsom fod y Ganolfan Ganser yn gweithio i gyflawni tri chynllun rhyngberthynol er mwyn lleihau'r galw, gwella gwasanaethau oncoleg acíwt, darparu gofal yn nes at adref, lleihau'r galw am ofal heb ei drefnu i gleifion mewnol a gwella llif cleifion. Mae'r cynlluniau'n cynnwys datblygu llwybrau gofal wedi'i drefnu a heb ei drefnu ar gyfer gwasanaethau oncoleg acíwt yn y Ganolfan Ganser ac mewn ysbytai ar draws y byrddau iechyd. Bydd proses gynllunio effeithlon ac effeithiol yn chwarae rhan bwysig yn y cynlluniau hyn, sef:

- mae'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser yn Ne Ddwyrain Cymru yn disgrifio sut i ymdrin â'r cynnydd blynyddol o 2% yn nifer yr achosion o ganser ar draws rhanbarth de ddwyrain Cymru drwy leihau'r galw am wasanaethau a ddarperir yng Nghaerdydd. Mae'r camau'n cynnwys: datblygu Canolfan Ganser newydd yn Felindre; ehangu Cyfleusterau Allgymorth Felindre mewn ysbytai eraill, fel yr uned radiotherapi newydd yn Ysbyty Nevill Hall yn y Fenni; a staff y Ganolfan Ganser mewn ysbytai eraill. Bydd cynllunio i ryddhau cleifion yn rhan annatod o'r gwasanaethau gofal heb ei drefnu ac wedi'i drefnu a ddarperir gan y datblygiadau hyn er mwyn byrhau arosiadau a sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau neu eu trosglwyddo i leoliadau gofal mwy priodol.
- Cymeradwywyd Strategaeth Canser Ymddiriedolaeth GIG Felindre 2016-2026 ym mis Tachwedd 2016. Mae'n cynnig gweledigaeth a fframwaith hirdymor i atgyfnerthu'r broses cynllunio tair blynedd, ac fe'i datblygwyd ochr yn ochr â'r rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser. Ceir ffocws ar leihau derbyniadau ac ar gydweithio â byrddau iechyd eraill i ddarparu gofal heb ei drefnu yn nes at adref i gleifion mewnol, yn rhan o'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau oncoleg acíwt.
- mae Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2017-2020 yn cyfleu'n glir pa mor bwysig yw mabwysiadu prosesau a gweithdrefnau da wrth gynllunio i

[6] Llywodraeth Cymru (2016), **Fframwaith Cynllunio'r GIG 2017/20**

ryddhau cleifion, er mwyn i'r Ganolfan Ganser gyflawni un o'r blaenoriaethau strategol 'gwella gofal a chymorth er mwyn i gleifion fyw'n dda yn ystod eu canser a thu hwnt'. Nodir sawl cam arall i gefnogi cynlluniau rhyddhau effeithiol yn y CTCI, gan gynnwys: cydweithio ag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST) i wella gwasanaethau trafnidiaeth i gleifion sy'n cael eu rhyddhau neu eu trosglwyddo; gweithredu'r system Trawsgrifiadau Meddyginiaeth a Rhyddhau Electronig (TMRhE); Gweithredu Porth Cyfathrebu Clinigol Cymru (PCCC) er mwyn gwella'r trefniadau ar gyfer cyfathrebu â gofal sylfaenol a fyddai'n cefnogi'r broses o ryddhau cleifion; a chyflwyno gwelliannau i wasanaeth fferyllol y Ganolfan Ganser, er mwyn cyflymu'r trefniadau i ddosbarthu meddyginiaethau pan fydd arhosiad claf mewnol yn dod i ben.

17 Mae'r cynlluniau hyn yn rhoi cyfle i'r Ganolfan Ganser asesu'r holl dderbyniadau er mwyn sicrhau bod y cleifion a gaiff eu derbyn yn gleifion a all elwa ar y gofal arbenigol y mae'n ei ddarparu. Mae llawer o gleifion yn dewis dod i'r Ganolfan Ganser oherwydd eu perthynas hirdymor â'r ganolfan ar ôl mynychu'r gwasanaethau cleifion allanol, ac oherwydd ei henw da am ragori yn y maes. Gallai fod yn fwy priodol gofalu am rai cleifion mewn ysbytai sydd yn nes at adref os yw'r driniaeth, fel gofal lliniarol neu gyfnewid platennau, ar gael yn lleol. Fodd bynnag, mae'n bosib y bydd ysbytai'r bwrdd iechyd eisoes yn ei chael hi'n anodd derbyn cleifion. Mae gan staff y Ganolfan Ganser hefyd fynediad at fap gwelyau Cymru, felly gallant weld yn rhwydd ym mha leoedd ac ar ba bryd y bydd gwelyau'n brin. Felly, os bydd modd i glaf fynd i'r Ganolfan Ganser, bydd hynny'n rhyddhau gwely mewn ysbyty cyffredinol dosbarth ar gyfer y cleifion eraill sy'n disgwyl cael eu derbyn.

18 Fel gwasanaeth trydyddol, bydd y Ganolfan Ganser yn aml yn derbyn cleifion a gafodd eu trin yn flaenorol mewn ysbytai eraill i gael triniaeth radiotherapi frys neu driniaeth ar gyfer cymhlethdodau yn sgil SACT. Ar ôl i'r claf dderbyn gofal yn y Ganolfan Ganser, efallai y bydd angen iddo fynd yn ôl i'w ysbyty gwreiddiol, cael ei drosglwyddo i ysbyty neu hosbis newydd, neu gael ei ryddhau adref. Dywedodd y Ganolfan Ganser wrthym nad oes unrhyw lwybrau rhyddhau sefydledig wedi'u datblygu â'r byrddau iechyd lleol i ymdrin â llif y cleifion rhwng y sefydliadau hyn. Gwelodd ein harchwilwyr nad yw'r Ganolfan Ganser fel arfer yn ymwneud â datblygu polisïau a gweithdrefnau'r byrddau iechyd ar gyfer rhyddhau cleifion.

19 Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gylchlythyr Iechyd Cymru ar Bolisi GIG Cymru ar gyfer Dychwelyd Cleifion[7]. Nid yw'r polisi hwn, fodd bynnag, ond yn cyfeirio at achosion o drosglwyddo rhwng byrddau iechyd. Nid yw'n cyfeirio'n benodol at gleifion sy'n cael eu trosglwyddo i'r Ganolfan Ganser ac oddi yno. Mewn blynyddoedd blaenorol, byddai cleifion yn cael eu derbyn i gael triniaeth yn y Ganolfan Ganser ac wedyn yn cael eu trosglwyddo'n ôl i'r ysbyty oedd yn eu hatgyfeirio. Mae'r cleifion bellach yn 'sownd' yn y Ganolfan Ganser, gan nad yw'r ysbytai'n gallu cadw eu gwelyau'n rhydd, hyd yn oed am gyfnod byr.

20 Gofynnwyd i sefydliadau'r GIG pa ffactorau sy'n cyfrannu at oedi cyn trosglwyddo gofal, er mwyn canfod i ba raddau y mae eu cynlluniau'n anelu i ymdrin â'r ffactorau sy'n achosi'r mwyaf o broblemau. Yn Nangosyn 2 gwelir bod prinder o ofalwyr cartref, prinder o welyau mewn cartrefi gofal i bobl â dementia, a phrinder capasiti ar draws gwasanaethau ailalluogi cymunedol yn ffactorau o bwys sydd yn achosi oedi wrth ryddhau cleifion neu drosglwyddo gofal. Mae'n bwysig cydnabod nad oes gan yr

[7] Cylchlythyr Iechyd Cymru (2017) **NHS Wales Policy for the Repatriation of Patients** 2017/008. [Saesneg yn unig]

Ymddiriedolaeth, fel y byrddau iechyd, reolaeth uniongyrchol dros lawer o'r ffactorau hyn. Serch hynny, mae angen iddi weithio gyda phartneriaid statudol ac annibynnol er mwyn canfod datrysiadau i fodloni anghenion cleifion.

Dangosyn 2: ffactorau sy'n cyfrannu at oedi wrth ryddhau cleifion neu drosglwyddo gofal ar draws sefydliadau'r GIG

Mae'r siart yn dangos y ffactorau yr ystyrir eu bod yn cyfrannu at oedi wrth ryddhau o'r ysbyty neu drosglwyddo gofal.




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth am gynllunio i ryddhau cleifion a ddychwelwyd gan gyrff y GIG yn 2017[8]

[8] Cawsom ymatebion gan y saith bwrdd iechyd a chan Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Mae Byrddau Iechyd Betsi Cadwaladr a Hywel Dda yn trefnu gwasanaethau cynllunio i ryddhau cleifion ar sail ardal leol neu ddaearyddiaeth, felly mae gennym fwy nag un ffurflen ddata ar gyfer y ddau fwrdd iechyd hyn.

21 Adroddodd y Bwrdd Iechyd fod y problemau canlynol bob amser neu'n aml yn achosi oedi wrth ryddhau cleifion:

- diffyg cymhorthion ac offer cymunedol i gynorthwyo pobl i fyw bywyd bob dydd, ee teclynnau codi, gwelyau arbennig;
- yr amser a gymerir i gyflawni addasiadau tai graddfa fawr;
- prinder gofalwyr cartref; a
- phrinder capasiti ar draws gwasanaethau ailalluogi cymunedol.

22 Yn ogystal â hyn, cyfeiriodd y Ganolfan Ganser at ddiffyg capasiti ar draws gwasanaethau nyrsio ardal y bwrdd iechyd. Bydd rhai cleifion sy'n cael eu rhyddhau yn gleifion sy'n dilyn llwybr cyflym adref gyda phecyn gofal cymhleth, ond mae'r trefniadau'n amrywio yn dibynnu ar y bwrdd iechyd y mae'r claf yn preswylio ynddo. Bydd y gallu i ryddhau ar hyd y llwybr cyflym yn aml yn ddibynnol ar gyllid gofal iechyd parhaus er mwyn galluogi cleifion i dderbyn hyd at bum ymweliad bob dydd gan nyrs ardal. Dywedodd staff nyrsio yn y Ganolfan Ganser y bu hi'n anodd yn y gorffennol cael hyd i nyrs ardal â'r sgiliau a'r gallu priodol i dderbyn atgyfeiriad ar gyfer claf sy'n cael ei ryddhau ar y llwybr cyflym. Mae'r broses hon yn llawer gwell ers i'r Ganolfan Ganser uwchgyfeirio'r mater i'r pennaeth nyrsio ardal ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae angen i'r Ganolfan Ganser ffonio ynghylch yr atgyfeiriad i ryddhau ar y llwybr cyflym cyn hanner dydd, a phryd hynny bydd y gwasanaeth nyrsio ardal yn gallu dod i benderfyniad ynghylch yr atgyfeiriad y prynhawn hwnnw neu'r bore canlynol. Fodd bynnag, yn achos cleifion y mae'r broses o'u rhyddhau o natur fwy rwtîn, dywedodd staff nyrsio wrthym y gall yr atgyfeiriadau i'r gwasanaethau nyrsio ardal gymryd yn hirach, sy'n golygu bod cleifion yn treulio mwy o amser nag sydd angen yn yr ysbyty.

## Mae polisi newydd wedi cael ei ddatblygu ar gyfer rhyddhau cleifion, ond mae angen gwneud gwaith pellach ar hyn

23 Dylid ystyried y broses ryddhau yn rhan o broses ofal ehangach, yn hytrach na'i hystyried fel digwyddiad ynysig ar ddiwedd arhosiad y claf. Dylai sefydliadau'r GIG gael polisïau a gweithdrefnau ar gyfer rhyddhau a throsglwyddo gofal, ac yn ddelfrydol dylid datblygu'r rheiny mewn cydweithrediad â phartneriaid statudol. Yn ogystal â hyn, dylai sefydliadau'r GIG gael polisi i gynnig dewis i'r cleifion hynny y mae angen iddynt symud ymlaen i gartref gofal yn rhan o'u trefniadau gofal parhaus, er y gallai'r dewis fod yn brin mewn sawl ardal.

24 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn rhoi cynnig ar wahanol ffyrdd o reoli'r broses ryddhau yn dilyn ymadawiad y nyrs gyswllt rhyddhau yn 2015. Yn y cyfamser, amlygai problemau diweddar yn gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion fod angen datblygu polisi newydd. Roedd yr Ymddiriedolaeth wedi llunio polisi drafft ar adeg ein gwaith maes, ac rydym wedi adolygu'r polisi hwnnw. Rydym yn ymwybodol bod yr Ymddiriedolaeth wedi parhau i ddatblygu'r polisi.

25 Mae'r polisi drafft yn seiliedig ar yr egwyddorion a sefydlwyd gan Fwrdd Rhaglen Gofal Heb ei Drefnu GIG Cymru ar gyfer rhyddhau cleifion yn gynnar ac yn ddiogel, yn dilyn derbyniadau heb eu trefnu. Y

canlyniad a fwriedir yw bod cleifion yn aros am y cyfnod priodol ac yn cael eu rhyddhau mewn modd cynlluniedig a chydgysylltiedig gyda gwasanaethau cymorth addas.[9]

26 Adolygwyd polisi rhyddhau drafft yr Ymddiriedolaeth ar ryddhau cleifion a throsglwyddo gofal drwy ddefnyddio matrics aeddfedrwydd[10]. Mae'r matrics aeddfedrwydd yn asesu 16 o elfennau'r polisi, gan ddyfarnu sgôr i bob elfen o un (llai datblygedig) hyd at dri (datblygedig iawn). Yn Nangosyn 3 gwelir y sgoriau a ddyfarnwyd i ddrafft yr Ymddiriedolaeth o'i pholisi rhyddhau yn erbyn y matrics aeddfedrwydd. O'r 14 o elfennau y buom yn eu hasesu sydd yn berthnasol i'r Ymddiriedolaeth, enillodd drafft y polisi sgôr o '3' ar 5 o'r elfennau. Gallai'r Ymddiriedolaeth atgyfnerthu'r polisi rhyddhau ar gyfer yr elfennau hynny a sgoriodd '1' neu '2', fel y nodir yn yr argymhellion.

Dangosyn 3: Perfformiad yr Ymddiriedolaeth yn erbyn rhestr wirio arfer da y polisi rhyddhau cleifion

Mae'r tabl yn dango bod rhai o'r elfennau yn nrafft yr Ymddiriedolaeth o'i bolisi rhyddhau cleifion wedi'u datblygu'n dda, ond gallai eraill elwa ar ddatblygiad pellach.

| Elfennau a aseswyd | Sgôr | Sylwadau'r archwilydd ynglŷn â'r polisi |
|---|---|---|
| Polisi rhyddhau aml-asiantaeth | 1 | Dogfen fewnol yr Ymddiriedolaeth yw'r polisi drafft. Nid yw'n cyfeirio at ymglymiad sefydliadau eraill, fel staff y gwasanaethau cymdeithasol o fewn awdurdodau lleol neu staff nyrsio ardal y byrddau iechyd. |
| Adolygwyd y polisi o fewn y flwyddyn ddiwethaf | 3 | Roedd yr Ymddiriedolaeth yn datblygu'r polisi ar adeg yr archwiliad. |
| Cynnwys cleifion/gofalwyr | 2 | Er bod yr angen i gynnwys y gofalwr a'r claf yn cael ei grybwyll drwy gydol y polisi, nid yw'r egwyddorion ar gyfer ymgynghori â'r claf a'i deulu/ofalwr/eiriolwr a'u cynnwys yn y broses ryddhau wedi'u nodi'n eglur. Ni sonnir am gynnal asesiad gofalwr. Gellid bod angen gwneud hynny er ein bod yn deall bod y Tîm Gofal Cefnogol yn atgyfeirio'r holl gleifion i'r awdurdod priodol er mwyn derbyn asesiad gofalwr ffurfiol. |
| Cyfathrebu | 3 | Mae'r polisi'n pwysleisio pa mor bwysig yw cyfathrebu â'r unigolyn, y teulu a gofalwyr. |
| Gwybodaeth | 3 | Mae'r polisi'n cyfeirio at ddarparu taflen i'r claf, a dylai'r staff nyrsio ddarllen drwy'r daflen honno gyda'r claf. Nodir ynddo hefyd y dylid trafod amcan y dyddiad rhyddhau gyda'r claf/ei berthynas/ei ofalwr fel bo'n briodol. |

[9] Bwrdd Rhaglen Gofal Heb ei Drefnu GIG Cymru (2011). **Ten High Impact Unscheduled (USC) Care Transformational Steps. [Saesneg yn unig] Cam 9 Gwella'r Broses Cynllunio i Ryddhau**. Cynllunio i Ryddhau Cleifion

[10] Mae ein matrics aeddfedrwydd yn seiliedig ar yr Offeryn Archwilio Hunanasesu ar gyfer Cynllunio i Ryddhau'n Effeithiol, a ddatblygwyd gan yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd yn 2008.

| Elfennau a aseswyd | Sgôr | Sylwadau'r archwilydd ynglŷn â'r polisi |
|---|---|---|
| Grwpiau sy'n agored i niwed ee cleifion sy'n ddigartref | 2 | Nid yw drafft y polisi yn crybwyll unrhyw grwpiau sy'n agored i niwed, nac yn cyfeirio at amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed (POVA). Mae angen ychwanegu adran ar POVA. Nid yw'r adran ar wrthod rhyddhau yn rhestru cleifion heb gartref sefydlog, er y bu hynny wrth wraidd sawl digwyddiad. |
| Cynllunio'n fuan i ryddhau yn achos derbyniad dewisol | 3 | Nid yw'r polisi'n gwahaniaethu rhwng derbyniadau dewisol a derbyniadau heb eu trefnu. |
| Pennir amcan o'r dyddiad rhyddhau cyn pen 24 awr ar ôl derbyn y claf. | 3 | Mae'r polisi'n datgan yn glir y bydd amcan o ddyddiad rhyddhau yn cael ei bennu ar gyfer pob claf cyn pen 12 awr ar ôl eu derbyn. |
| Osgoi Aildderbyn | 2 | Ni chyfeirir yn benodol at yr angen i osgoi aildderbyn cleifion, er bod egwyddor clir wedi'i sefydlu o beidio rhyddhau cleifion onid ydynt yn eu 'cyflwr clinigol optimwm'' |
| Cytundebau a phrotocolau lleol | Amh. | Amherthnasol |
| Asesu | 2 | Mae'r polisi'n cyfeirio at Ryddhau Lefel 3, a ddiffinnir fel claf y mae angen i'r Tîm Amlddisgyblaeth gynnal asesiad cynhwysfawr ohono ar sail egwyddorion Asesu Unedig; nid yw'n darparu unrhyw ddolen gyswllt i bolisi na gweithdrefn ar Asesiadau Unedig. |
| Rhyddhau o'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys | Amh. | Amherthnasol |
| Rhyddhau'n uniongyrchol o ofal ysbyty acíwt i gartref gofal | Amh. | Amherthnasol |
| Cysylltiadau â'r polisi dewis llety | 2 | Ceir adran ar gleifion sydd angen cartref gofal/cartref gofal sy'n cynnwys nyrsio sydd yn gwrthod cymryd rhan yn y broses ddewis. Gellid datblygu'r adran ar ddewis llety ymhellach. |
| Opsiynau Gofal | 2 | Nodir yn y lefelau rhyddhau pa opsiynau gofal sydd ar gael i gleifion yng ngwahanol gyfnodau eu cyflwr, ond mae angen manylu ymhellach. |
| Prosesau uwchgyfeirio | 2 | Mae'r polisi'n cynnwys adran ar gleifion 'sy'n gwrthod cael eu rhyddhau'. Mae'r broses uwchgyfeirio wedi'i nodi yn yr adran honno ac wedi'i chrynhoi ar ffurf siart lif. Gellid cynnwys mwy o fanylion ynghylch pwy sy'n gyfrifol am y |

| Elfennau a aseswyd | Sgôr | Sylwadau'r archwilydd ynglŷn â'r polisi |
|---|---|---|
| | | broses uwchgyfeirio yn yr adran Perchnogaeth a Chyfrifoldebau. |
| Protocolau Rhyddhau Hygyrch | 2 | Ceir siartiau llif ar gyfer achosion o oedi cyn trosglwyddo gofal ac ar gyfer cleifion sydd yn gwrthod cael eu rhyddhau. Byddai'n fuddiol cael siart lif ar y weithdrefn ar gyfer pob un o'r categorïau rhyddhau. |

Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o bolisi rhyddhau Drafft Ymddiriedolaeth GIG Felindre, 2017

27 Dylid diffinio'n glir y rolau a'r cyfrifoldebau ar gyfer rhyddhau cleifion mewn modd diogel ac amserol mewn polisïau a gweithdrefnau. Gwneir hyn fel bo modd gwneud defnydd effeithiol o sgiliau a gwybodaeth, ac fel bo modd dwyn aelodau unigol o staff i gyfrif am eu rôl yn y broses. Yn y polisi rhyddhau dylid hefyd bennu'r safonau ar gyfer yr holl staff sy'n gyfrifol am ryddhau cleifion. Mae adran yn nrafft y Ganolfan Ganser o'i pholisi rhyddhau yn rhoi amlinelliad clir o rolau a chyfrifoldebau proffesiynau a thimau sy'n ymwneud â chynllunio i ryddhau cleifion. Mae hyn yn cynnwys y prif weithredwr ac aelodau ehangach Bwrdd yr Ymddiriedolaeth, y pennaeth nyrsio, staff clinigol, y rheolwr ward, aelodau eraill o staff ward a staff therapïau. Fodd bynnag, ni chyfeirir o gwbl at rôl y 'nyrs rhyddhau' y cyfeirir ati yn yr adran 'Camau Gweithredu Craidd wrth ryddhau pob claf', ac sy'n allweddol er mwyn sicrhau bod y broses ryddhau'n cael ei chynnal yn rhwydd.

28 Yn ôl y staff, maent wedi bod yn gweithio gyda nyrsys ardal ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i wella'r trefniadau ar gyfer cynllunio i ryddhau cleifion, ond nid ydynt wedi gweld effaith y newidiadau hynny eto. Mae'r Ganolfan Ganser yn cydnabod bod angen iddi ymgynghori â byrddau iechyd lleol yn ne ddwyrain Cymru er mwyn gwella'r trefniadau i ryddhau ei chleifion, a byddai'n fuddiol iddi ymgysylltu â hwy wrth ddatblygu'r polisi hwn.

## Nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi cofnodi ei llwybrau rhyddhau eto.

29 Dylid ystyried cynllunio i ryddhau o'r ysbyty yn broses barhaus a gynhelir bob dydd o'r wythnos. Er na fydd yr holl staff sy'n ymwneud â chynllunio i ryddhau'r claf ar gael bob amser, dylai'r gwaith cyfathrebu, cynllunio a chydgysylltu barhau. Gall llwybrau rhyddhau diffiniedig sy'n nodi'r gyfres o gamau y mae angen eu cymryd ac amseriad ymyraethau gan weithwyr proffesiynol gofal iechyd ar gyfer grwpiau diffiniedig o gleifion, yn enwedig rhai ag anghenion cymhleth, fod o gymorth i sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau'n ddiogel a phrydlon.

30 Y dull confensiynol o ryddhau cleifion, yn enwedig henoed bregus, yw cynnal cyfres o asesiadau yn y ward er mwyn canfod pa fath o gymorth y gallai fod arnynt ei angen gartref. Cwblheir yr asesiadau hyn fel arfer ar ôl datgan bod y claf yn 'feddygol' iach i'w ryddhau. Cyn gynted ag y bydd asesiadau wedi'u cwblhau, bydd cleifion wedyn yn cael eu rhyddhau pan fydd yr holl wasanaethau cymorth priodol neu'r holl adnoddau eraill wedi'u trefnu, a allai gymryd cryn dipyn o amser. Gelwir hyn yn llwybr neu'n fodel 'asesu i ryddhau'.

31 Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn annog llwybr neu fodel 'rhyddhau i asesu'[11, 12]. Mae hynny'n golygu rhyddhau cleifion i fynd adref pan fônt yn 'feddygol' iach i'w rhyddhau, a phan nad oes angen gwely mewn ysbyty arnynt mwyach. Ar y diwrnod rhyddhau, bydd aelodau o'r tîm iechyd a gofal cymdeithasol priodol wedyn yn cynnal asesiad gartref o anghenion cymorth cleifion. Bydd hyn yn galluogi cleifion i dderbyn y lefel gywir o ofal a chymorth gartref mewn amser real, ac yn cael gwared â'r angen i gadw cleifion mewn gwely yn yr ysbyty tra bônt yn aros i asesiadau gael eu cynnal ac i wasanaethau gael eu trefnu.

32 Canfu'r Uned Gyflawni mai prin oedd y defnydd o lwybrau 'rhyddhau i asesu', ac argymhellodd y dylai sefydliadau'r GIG eu gweithredu. Gwelsom fod hanner (4 o 8) o sefydliadau'r GIG wedi gweithredu model 'rhyddhau i asesu' er nad oedd y model ond wedi cael ei weithredu ar safleoedd ysbyty penodol mewn rhai sefydliadau.

33 Yn rhan o'n gwaith, buom yn edrych ar y prif lwybrau rhyddhau sydd wedi'u sefydlu er mwyn asesu pa mor glir oedd eu diben, a oedd y llwybrau hynny wedi'u datblygu ar y cyd â phartneriaid ac wedi'u cefnogi gan algorithmau, ac a oedd dogfennau a mesurau ansawdd safonedig wedi'u sefydlu.

34 Mae polisi rhyddhau drafft y Ganolfan Ganser yn rhannu achosion rhyddhau i bum categori y mae eu cymhlethdod yn cynyddu'n unol â'r anghenion wrth ryddhau. Cleifion sy'n cael eu rhyddhau o dan Lefel 1 yw'r cleifion hynny y mae bodloni eu hanghenion iechyd a gofal cymdeithasol yn rhwydd neu'n syml, tra bo angen gofal mwy cymhleth ar gleifion lefelau 2 a 3. Mae'r ddau gategori arall yn cynnwys achosion rhyddhau cyflym a throsglwyddiadau allanol. Achosion rhyddhau cyflym yw'r achosion hynny sy'n cynnwys cleifion y mae eu disgwyliad oes wedi'i fesur mewn wythnosau neu fisoedd, ac mae trosglwyddiadau allanol ar gyfer y cleifion hynny sy'n disgwyl trosglwyddo i leoliadau gofal yn hytrach nag adref.

35 Nid yw'r Ganolfan Ganser wedi cofnodi'r llwybrau rhyddhau eto, gan ddangos y dilyniant o gamau y mae angen eu cymryd er mwyn rhyddhau cleifion yn ddiogel, yn ôl eu categori rhyddhau. Nid oeddem felly'n gallu cynnal adolygiad ohonynt.

36 Mae'r Ganolfan Ganser yn defnyddio'r model 'asesu i ryddhau' yn hytrach na'r model 'rhyddhau i asesu'. Mae'n gwneud hynny gan ei bod hi'n annhebygol y ceir datganiad bod cleifion yn feddygol iach yn yr ystyr confensiynol, oherwydd eu diagnosis parhaus o ganser, neu am eu bod ar lwybr diwedd oes lle mae angen gofal lliniarol, a lle mae angen gwneud llawer o drefniadau cyn y gellir eu rhyddhau'n ddiogel. Ni chaiff cleifion ond eu rhyddhau ar ôl iddynt gyrraedd 'cyflwr clinigol optimwm', ac ar ôl gwneud yr holl drefniadau gofal priodol.

[11] Llywodraeth Cymru (2010), **Gosod y Cyfeiriad: Gwasanaethau Cychwynnol a Chymuned - Rhaglen Strategol ar Gyfer Cyflawni**

[12] Llywodraeth Cymru (2011), **Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy**

# Rhan 2: Mae staff y Ganolfan Ganser yn datblygu prosesau ac adnoddau i gefnogi cynlluniau rhyddhau effeithiol

## Arweinir y broses o gynllunio i ryddhau cleifion gan nyrsys ward gyda chefnogaeth y tîm amlddisgyblaeth - dull cymharol newydd sydd heb ei werthuso eto

37 Tîm cyswllt rhyddhau yw tîm arbenigol sy'n anelu i gefnogi proses trosglwyddo gofal ddiogel a di-dor ar gyfer cleifion sydd yn symud o'r ysbyty i ddarpariaeth gwasanaeth yn y gymuned. Gall y timau hyn fod yn ffynhonnell werthfawr o gefnogaeth a gwybodaeth i staff ward, a chynnig cymorth i hwyluso achosion rhyddhau cymhleth.

38 Gofynnwyd am wybodaeth gan bob sefydliad o fewn y GIG ynghylch a ydynt yn gweithredu gwasanaethau cyswllt ar gyfer rhyddhau, ac ynghylch cwmpas y gwasanaethau hynny. Ledled Cymru, gwelsom fod holl sefydliadau'r GIG, ac eithrio Ymddiriedolaeth GIG Felindre, yn darparu un neu fwy o dimau cyswllt ar gyfer rhyddhau. Mae'r holl dimau'n gweithredu o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod oriau swyddfa, a'r amser gorffen hwyraf yw 5.30pm. Dywedodd saith o'r 15 o dimau eu bod yn rheoli achoson rhyddhau syml a chymhleth.

39 Fel arfer, bydd timau cyswllt rhyddhau yn cynnwys staff nyrsio ond, er mwyn cael rheolaeth well ar achosion rhyddhau cymhleth, dylai'r timau fod yn amlddisgyblaethol. Yn Nangosyn 4 gwelir y gwahanol broffesiynau o fewn timau cyswllt rhyddhau ledled Cymru. Dengys y data fod llai na hanner y timau yn amlddisgyblaethol a'r rhan fwyaf ohonynt wedi'u harwain gan nyrsys. Mae timau cyswllt rhyddhau yn amrywio o ran maint rhwng dau aelod staff cyfwerth ag amser llawn (CALl) a 29 aelod o staff CALl, gyda'r timau mwy yn gweithio ar draws amryw o safleoedd ysbyty.
Roedd y timau'n cynnwys saith aelod CALl o staff ar gyfartaledd.

Dangosyn 4: gwahanol aelodau staff proffesiynol a ddyrennir i Dimau Cyswllt Rhyddhau ar 30 Medi 2016

Mae'r siart yn dangos bod timau cyswllt rhyddhau ledled Cymru wedi'u harwain yn bennaf gan nyrsys, ac mai ychydig iawn o dimau amlddisgyblaethol a geir.




*Mae 'arall' yn cynnwys gwasanaethau fferyllol a gweinyddol
Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth a gasglwyd am Dimau Cyswllt Rhyddhau, 2017.[13]

40 Bu'r Ganolfan Ganser yn cyflogi nyrs gyswllt rhyddhau am flynyddoedd. Dywedwyd wrthym fod y nyrs unigol yn cyflawni ei rôl yn dda, a bod ganddi lawer o arbenigedd a gwybodaeth, ond mai hi yn unig a wyddai sut i drefnu i ryddhau cleifion. Roedd hyn yn golygu bod nyrsys ward yn colli sgiliau ac yn llai hyderus wrth drefnu i ryddhau cleifion, pan nad oedd y nyrs gyswllt ar gael. Pan ddaeth y swydd yn wag ym mis Gorffennaf 2015, manteisiodd y Ganolfan ganser ar y cyfle i adolygu'r trefniadau ar gyfer rhyddhau cleifion. Ym mis Tachwedd 2015, cyhoeddodd y tîm amlddisgyblaeth bapur i adolygu'r trefniadau ar gyfer rhyddhau cleifion mewnol. Argymhellai'r papur fod angen i gyfarfodydd wythnosol y tîm amlddisgyblaeth fod yn fyrrach, fod angen eu cynnal yn amlach a bod angen canolbwyntio mwy ynddynt ar adnabod a chefnogi gofynion rhyddhau ac atgyfeirio buan.

41 Yn y Ganolfan Ganser, bydd y broses o gynllunio i ryddhau cleifion yn dechrau gyda chyfarfodydd 'rhawdiau bwrdd' y tîm amlddisgyblaeth. Cynhelir y rhain dair gwaith yr wythnos, ar ddydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener. Bydd nyrsys (o'r wardiau, o ofal lliniarol ac a o reolaeth ar heintiau), therapyddion galwedigaethol, ffisiotherapyddion, a therapyddion cyflenwol bob amser yn bresennol yn

[13] Mae'r saith bwrdd iechyd yng Nghymru yn gweithredu Timau Cyswllt Rhyddhau. Mae tri bwrdd iechyd – Byrddau Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, Hywel Dda a Betsi Cadwaladr – yn gweithredu timau ar wahân ar gyfer pob safle ysbyty. Cawsom 15 o ffurflenni data oddi wrth Dimau Cyswllt Rhyddhau, er nad oedd yr holl ffurflenni data yn gyflawn.

y cyfarfodydd hyn. Nid oes unrhyw weithwyr cymdeithasol na swyddogion tai yn bresennol yn y cyfarfodydd ward. Er bod staff meddygol yn cael gwahoddiad i fod yn bresennol, gwelsom nad oedd meddygon iau bob amser yn bresennol drwy gydol y cyfarfod. Dywedodd un rheolwr ward wrthym fod cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaeth yn gweithio'n dda, ond y gellid eu gwella drwy bennu nodau a therfynau amser cliriach, oherwydd fel arall mae peryg i'r tîm ailadrodd yr un trafodaethau bob tro. Mae angen i bawb ddeall yn glir pwy sy'n gwneud peth ac erbyn pryd, ac mae angen iddynt wybod am achosion sydd wedi'u hatgyfeirio i wasanaethau eraill.

42 Y cynllun o hyn allan yw hyfforddi'r holl staff nyrsio cofrestredig ar gynllunio i ryddhau cleifion er mwyn cynyddu eu hyder. Byddai un o'r nyrsys cofrestredig yn cael ei phennu, ar gylchdro, i weithio gyda phob ward ar yr un diwrnodiau â chyfarfodydd amlddisgyblaeth (dydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener) er mwyn helpu gyda ffurflenni rhyddhau, cysylltu â gweithwyr cymdeithasol, gwasanaethau cymunedol ac ati. Cadwodd y Ganolfan Ganser 50% o'r cyllid ar gyfer swydd y nyrs gyswllt rhyddhau, ac mae'n bwriadu defnyddio'r arian hwnnw ar gyfer darpariaeth lanw ar wardiau fydd yn rhoi amser i'r staff ward gwblhau trefniadau rhyddhau.

43 Mae'r therapyddion galwedigaethol yn rhan allweddol o'r tîm rhyddhau. Eu rôl yw cynnal asesiadau cychwynnol o allu gweithredol y claf, ac asesu amgylchedd cartref y claf. Gallant drefnu i ddarparu cyfarpar addas yng nghartref y claf. Bydd y therapydd galwedigaethol yn cydweithio â'r storfeydd cyfarpar ym mhob bwrdd iechyd, a byddant oll yn defnyddio system o'r enw CEquip. Dywedwyd wrthym fod y trefniant yn BIP Caerdydd a'r Fro hefyd yn gweithio'n dda, oherwydd gall y therapyddion galwedigaethol gyrchu'r system ar-lein ac archebu cyfarpar yn uniongyrchol. Fodd bynnag, nid yw byrddau iechyd eraill yn caniatáu i'r therapyddion galwedigaethol gael mynediad uniongyrchol, ac mae hynny'n achos oedi hir wrth gysylltu â staff y bwrdd iechyd i archebu a diwygio archebion dros y ffôn. Ceir anawsterau tebyg yn gysylltiedig â storfeydd y gwasanaethau cymdeithasol, ond bryd hynny bydd therapyddion galwedigaethol yn gorfod ymdrin â phroblem ychwanegol, sef mwy o sefydliadau. Mae'r pum bwrdeistref yn ardal BIP Aneurin Bevan, y mae gan bob un ohonynt eu storfeydd a'u prosesau eu hunain, yn enghraifft o hyn. Mae'r therapyddion galwedigaethol wedi gweld eu llwyth gwaith yn cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf, ac ers dyfodiad pennaeth therapïau newydd maent wedi bod yn adolygu eu llwyth gwaith a'u prosesau.

44 Mae'r fferyllfa yn rhan arall bwysig o'r broses ryddhau. Nodir yn y polisi rhyddhau fod angen darparu meddyginiaethau sydd i fynd adref gyda'r claf i'r fferyllfa o leiaf 24 awr cyn cynllunio i ryddhau'r claf. Fodd bynnag, cyfeiriodd y cyfweleion at sawl mater yn gysylltiedig â'r amser a gymerir i ddarparu cyffuriau i'r claf fynd adref gydag ef/hi. Dywedodd y fferyllydd wrthym mai cyrsiau cymhleth o SACT yw'r cyffuriau fel arfer, a bod cyffuriau oncoleg newydd yn aml yn cael eu cyflwyno y mae angen mwy o amser i'w prosesu yn y fferyllfa. Bydd y presgripsiwn yn cael ei gyflwyno i'r fferyllfa cyn rhyddhau'r claf, a bydd y fferyllfa yn gwirio ac yn dosbarthu'r feddyginiaeth. Fodd bynnag, pan fyddai fferyllwyr yn canfod gwallau, dywedodd staff y fferyllfa fod cael hyd i feddyg i ddiwygio a chymeradwyo'r presgripsiwn yn cymryd amser. Roedd y fferyllydd hefyd yn pryderu nad oedd y meddyginiaethau i fynd adref yn cael eu cwblhau cyn i'r meddyg ymgynghorol fynd o amgylch y ward yn y prynhawn (mae'r meddygon ymgynghorol yn cynnal clinigau yn y bore). Ar ôl dosbarthu'r presgripsiwn, bydd angen i nyrs wedyn drafod y cyffuriau gyda'r claf cyn y gall fynd adref. Bydd yr holl brosesau hyn yn ychwanegu at yr amser a gymerir i ryddhau claf. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod pa mor bwysig yw rôl y fferyllfa er mwyn cefnogi'r broses o ryddhau cleifion, ac mae'r CTCI yn cynnwys camau penodol i wella'r gwasanaeth fferyllol er mwyn cyflymu'r broses o ryddhau.

45 Rhan arall bwysig o'r broses rhyddhau cleifion yw'r trefniadau trafnidiaeth. Er y bydd rhai cleifion yn gallu mynd adref gyda pherthnasau a ffrindiau, nid yw hyn yn bosibl i lawer sy'n dioddef canser datblygedig. Mae gan y Ganolfan Ganser gerbyd penodol, a ddarperir gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST), a ddefnyddir yn bennaf i gludo cleifion sy'n dioddef cywasgiad madruddyn y cefn. Dywedwyd wrthym fod y gwasanaeth hwn yn wasanaeth da, ond nad oedd bob amser ar gael pan oedd ei angen. Gall staff hefyd ffonio gwasanaeth ambiwlans St John's. Maent yn gwneud hynny ambell waith bob mis, ond nid yw hyn yn digwydd yn ddigon aml fel bod angen sefydlu contract gyda hwy. Hoffai'r Ganolfan Ganser ddylunio gwasanaeth trafnidiaeth yn wedi'i deilwra'n arbennig, ac mae'n gweithio gyda WAST i wella'r opsiynau trafnidiaeth sydd ar gael i gleifion bregus mewn achosion lle nad oes brys.

46 Mae gan y Ganolfan Ganser dîm gofal lliniarol sydd yn ymwneud â chleifion ac yn cymryd rhan yng nghyfarfodydd y tîm amlddisgyblaeth. Fodd bynnag, ni chrybwyllir eu rôl yn y polisi rhyddhau cleifion. Mae angen ychwanegu rôl y tîm gofal lliniarol yn y broses o ryddhau cleifion at y polisi.

47 Mae'r Ganolfan Ganser yn defnyddio ffurflen bapur, 'Dogfen Drosglwyddo (Nyrsio)', a gaiff ei llenwi ar ffurf driphlyg, gan gadw'r copi gwyrdd o flaen nodiadau'r claf. Mae'r ffurflen yn cofnodi cysylltiadau gwaith cymdeithasol y claf, trafodaethau â chleifion a gofalwyr ac ati. Dywedwyd wrthym fod y cofnod papur hwn o gymorth i gynllunio yn ôl staff ward. Mae staff nyrsio ar lefel y ward yn gyfrifol am gasglu gwybodaeth am bob claf, yn seiliedig ar glaf penodol. Caiff yr wybodaeth honno wedyn ei chynnwys yng nghofnod clinigol y claf.

## Nid oes ardal benodol lle gall cleifion mewnol neu gleifion dydd aros i gael eu rhyddhau

48 Gall lolfa ryddhau gefnogi cynlluniau rhyddhau effeithiol a llif cleifion drwy ryddhau gwelyau'n brydlon fel bo modd derbyn cleifion eraill. Mae lolfa ryddhau yn cynnig lle addas i gleifion aros i berthnasau neu drafnidiaeth yr ysbyty eu casglu, neu i aros am ddosbarthu eu meddyginiaeth.

49 Holwyd sefydliadau'r GIG ynghylch eu cyfleusterau o ran lolfeydd rhyddhau. Ar draws Cymru, gwelsom fod pob bwrdd iechyd, ar wahân i Bowys, yn gweithredu lolfeydd rhyddhau yn eu hysbytai acíwt. Ar adeg ein gwaith archwilio, roedd gan y lolfeydd rhyddhau y capasiti i gefnogi 192 o gleifion oedd yn disgwyl cael eu rhyddhau ar unrhyw bryd; capasiti cyfartalog pob lolfa ryddhau oedd 11. Ar draws Cymru, mae lolfeydd rhyddhau ar agor am 8 i 12 awr o ddydd Llun i ddydd Gwener yn unig, ac mae nyrsys cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd yn gweithio ynddynt fel arfer. Ceir hefyd gyfleusterau bwyd a thoiledau i'r cleifion.

50 Nid yw'r Ganolfan Ganser yn gweithredu lolfa ryddhau. Mae hynny'n anymarferol gan mai ychydig o gleifion sy'n cael eu rhyddhau bob dydd. Ar hyn o bryd, gall cleifion ward eistedd mewn ystafelloedd dydd neu ar y wardiau wrth ddisgwyl am gludiant adref. Mae'r ystafelloedd yn gyffyrddus ac mae staff arlwyo yn gweithio yno. Gall cleifion ddefnyddio'r toiledau, a gellir cael mewnbwn y staff nyrsio o hyd os oes angen.

51 Dywedodd staff y Ganolfan Ganser fod hyn yn rhywbeth y gellid ei ystyried yn y dyfodol yn rhan o'r gwaith o gynllunio Canolfan Ganser newydd, oherwydd bydd cleifion sydd wedi gadael y ward neu sydd wedi gorffen eu triniaeth fel claf allanol am y diwrnod weithiau'n gorfod sefyllian yng ngwahanol rannau o'r ysbyty yn disgwyl cael eu codi gan WAST neu berthnasau. Teimlai'r staff y byddai neilltuo

lle cyffyrddus i aros am drafnidiaeth yn fuddiol i'r cleifion a hefyd yn ei gwneud hi'n haws i'r staff gadw golwg arnynt.

## Bydd staff yn casglu ac yn diweddaru gwybodaeth am y gwasanaethau allanol sydd eu hangen er mwyn hwyluso'r broses o ryddhau cleifion, a bwriedir cynnal hyfforddiant pellach i'r staff ar ôl cwblhau'r polisi rhyddhau cleifion yn derfynol.

52 At ei gilydd, tîm y ward sy'n gyfrifol am asesu cleifion a chynllunio i'w rhyddhau. Dylai staff y ward gymryd rhan yn y broses cynllunio i ryddhau a'i hystyried yn rhan o'r continwwm gofal, a dylid dwyn staff ward a rheolwyr gweithredol i gyfrif am gynllunio i ryddhau cleifion yn effeithiol. I ategu hyn dylid sicrhau ymwybyddiaeth glir o bolisïau a llwybrau, mynediad at lefelau hyfforddi priodol, ac ymwybyddiaeth dda o'r ystod o wasanaethau sydd ar gael i gefnogi prosesau rhyddhau.

### Bydd hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion yn ailgychwyn ar ôl cymeradwyo drafft y polisi ar ryddhau cleifion

53 Dylai staff rheng flaen dderbyn hyfforddiant rheolaidd sy'n briodol i'w rôl yn y broses ryddhau. Dylai'r hyfforddiant hwn fod yn rhan o'r rhaglenni ymsefydlu a hefyd o ddiweddariadau rheolaidd ar bynciau penodol, yn enwedig pan fydd polisïau cysylltiedig yn ddibynnol ar asesu a chynllunio gofal. Yn ddelfrydol, darperir hyfforddiant ar sail aml-asiantaeth ac/neu ar sail aml-broffesiwn er mwyn sicrhau bod cynllunio i ryddhau cleifion yn fusnes i bawb.

54 Yn Nangosyn 5 gwelir mai llai na hanner sefydliadau'r GIG ledled Cymru sy'n cynnwys cynlluniau rhyddhau mewn rhaglenni ymsefydlu nyrsys, a bod mwy na hanner ohonynt yn cynnig hyfforddiant gloywi rheolaidd. Dywedodd y Ganolfan Ganser wrthym eu bod yn darparu Hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion mewn rhaglenni ymsefydlu nyrsys, ond nad oeddent wedi darparu hyfforddiant gloywi ers dros ddwy flynedd. Dywedodd staff nyrsio wrthym eu bod yn darparu hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r ffeil ryddhau i staff newydd pan fyddant yn dod i weithio ar y ward.

55 Mae'r Ganolfan Ganser yn bwriadu darparu hyfforddiant i'r holl staff nyrsio ar y wardiau cleifion mewnol ar ôl cymeradwyo'r polisi newydd. Byddai'r Ganolfan hefyd yn hoffi gwahodd nyrsys ardal i ddigwyddiadau hyfforddi er mwyn sicrhau bod pawb yn gwybod beth yw'r gweithdrefnau rhyddhau a chynyddu hyder nyrsys ardal wrth ofalu am gleifion gyda chanser.

Dangosyn 5: argaeledd hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion ar gyfer staff nyrsio

Dengys y tabl pa sefydliadau yn y GIG sydd yn darparu hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion yn rhan o raglenni ymsefydlu nyrsys, ac a ddarperir hyfforddiant gloywi rheolaidd i'r staff nyrsio.

| Sefydliad y GIG | Hyfforddiant ar gynllunio i gynnwys cleifion mewn rhaglenni ymsefydlu nyrsys ar gyfer dechreuwyr newydd | Hyfforddiant gloywi ar gynllunio i ryddhau cleifion wedi'i ddarparu'n rheolaidd i nyrsys[1] |
|---|---:|---:|
| Abertawe Bro Morgannwg | Nac oes | Oes |
| Aneurin Bevan | Nac oes | Nac oes |
| Betsi Cadwaladr | | |
| • Ysbyty Gwynedd | Oes | Oes |
| • Wrecsam Maelor | Oes | Oes |
| • Glan Clwyd | Oes | Nac oes |
| Caerdydd a'r Fro | Nac oes | Oes |
| Cwm Taf | Nac oes | Oes |
| Hywel Dda (timau sirol) | | |
| • Sir Benfro | Oes | Nac oes |
| • Ceredigion | Nac oes | Nac oes |
| • Sir Gaerfyrddin | Nac oes | Nac oes |
| Powys | Nac oes | Nac oes |
| **Felindre** | **Oes** | **Oes** |
| [1]Hyfforddiant gloywi wedi'i ddarparu o leiaf bob blwyddyn, neu ddwywaith y flwyddyn i'r staff nyrsio | | |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth am gynllunio i ryddhau cleifion a ddychwelwyd gan gyrff y GIG yn 2017 (Gweler Troednodyn 8)

Mae a wnelo'r rhwystrau sy'n atal rhyddhau cleifion yn brydlon yn bennaf â chyrchu gwasanaethau a ddarperir gan fyrddau iechyd eraill a'r gwasanaethau cymdeithasol.

56 Wrth adolygu trefniadau rhyddhau cleifion mewn ysbytai cyffredinol, canfu'r Uned Gyflawni ddiwylliant ledled Cymru lle'r oedd pobl yn gyndyn o gymryd risg, lle'r oedd y staff yn siarad yn agored am ddiwylliant 'cwtsh'[14] a'r ffaith nad oedd digon o amser yn cael ei neilltuo i reoli'r broses ryddhau. O'n cyfweliadau, clywsom fod y Ganolfan Ganser ymhell o fod o dan yr un pwysau i ryddhau cleifion yn gyflym ag ysbytai eraill, oherwydd yn yr ysbytai hynny mae cleifion yn disgwyl cael eu derbyn o'r adran ddamweiniau ac achosion brys. Dywedwyd wrthym fod y pwysau sydd ar y Ganolfan Ganser yn tarddu o'r dymuniad i sicrhau bod y cleifion yn cyrraedd y lle gorau posib i fodloni eu hanghenion parhaus.

57 Buom yn bresennol yn y sesiwn friffio amlddisgyblaeth ar y ward, ac o'r sesiwn honno gallem weld fod cynllunio i ryddhau yn rhan bwysig o'r broses o reoli cleifion. Mae'r staff yn gwybod am ba mor hir y bydd angen i rai cleifion dderbyn cwrs SACT neu radiotherapi, ond nid ydynt yn gwybod am ba mor hir y bydd angen i glaf aros yn y Ganolfan nes bo'r driniaeth wedi'i chychwyn am ei bod yn effeithio ar bobl mewn gwahanol ffyrdd. Gan hynny, ni fydd y broses o gynllunio i ryddhau'r claf ond yn dechrau pan fydd y staff yn gwybod beth yw effaith y driniaeth arno, a pha fath o ôl-ofal fydd ei angen.

58 Wrth archwilio nodiadau achos y byrddau iechyd, canfu'r Uned Gyflawni nad oedd rhyw lawer o dystiolaeth yng nghofnodion cleifion fod staff wedi trafod disgwyliadau rhyddhau gyda hwy. Dywedwyd wrthym fod y cleifion a'r gofalwyr bob amser yn cymryd rhan yn y broses o gynllunio i ryddhau, ac y bydd y tîm therapi galwedigaethol yn cynnal ymweliadau cartref pan fydd angen. Mae'r Ganolfan Ganser yn darparu taflen 'Paratoi i adael yr ysbyty' ac, ar ôl derbyn y claf, mae'r staff yn mynd drwy'r daflen gyda'r claf a gofalwyr. Trafodwyd mewnbwn gofalwyr yn y sesiwn friffio amlddisgyblaeth y buom yn bresennol ynddi ar y ward. Mae angen i'r Ganolfan Ganser wybod a all perthynas neu ffrind fabwysiadu rôl y gofalwr. Gallai fod angen iddynt gymryd amser i ffwrdd o'r gwaith er mwyn gallu gwneud hynny. Maent hefyd yn ymwybodol nad yw pob perthynas neu ffrind yn dymuno nac yn teimlo eu bod yn gallu mabwysiadu'r rôl honno, a phryd hynny bydd angen gwneud gwaith cynllunio ychwanegol. Fodd bynnag , nid oedd asesiad gofalwr ffurfiol wedi'i nod yn y polisi rhyddhau, er ein bod yn deall bod y Tîm Gofal Cefnogol yn atgyfeirio'r holl gleifion i'r awdurdod priodol i dderbyn asesiad gofalwr ffurfiol. Dylai'r Ymddiriedolaeth gofnodi'r gofyniad i'r tîm gofal cefnogol atgyfeirio'r holl gleifion i dderbyn asesiad gofalwr ffurfiol.

59 Y rhwystr mwyaf a godwyd oedd y ffaith nad oes gan y Ganolfan Ganser unrhyw reolaeth dros y gwasanaethau a ddarperir gan fyrddau iechyd eraill a'r gwasanaethau cymdeithasol. Y mae'n dibynnu ar y perthnasoedd y mae wedi'u meithrin â staff y byrddau iechyd er mwyn cefnogi'r broses o ryddhau cleifion o'r Ganolfan Ganser.

Mae staff ward yn casglu gwybodaeth am wasanaethau cymunedol i gefnogi'r broses o ryddhau cleifion ac yn cadw'r wybodaeth honno'n gyfredol.

60 Mae cael dealltwriaeth dda o ystod a chapasiti gwasanaethau iechyd cymunedol a gofal cymdeithasol yn elfen bwysig wrth sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau'n brydlon. Dylai cyrff iechyd ddal

[14] Disgrifiodd yr Uned Gyflawni ddiwylliant cwtsh lle'r oedd rhai aelodau staff yn amharod i ryddhau cleifion i'w cartrefi eu hunain, oherwydd eu bod yn tybio y gallai hynny achosi risg i'r cleifion. Er mai caredigrwydd sydd wrth wraidd hyn, mae'n bosib nad yw'r staff yn gweithredu er budd pennaf y cleifion.

gwybodaeth gyfredol am y gwasanaethau cymunedol sydd ar gael a all helpu cleifion ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Gall y gwasanaethau hyn fod ar gael drwy sefydliadau'r GIG, awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector. Gofynnwyd i gyrff iechyd pa fathau o wybodaeth yr oeddent yn ei chasglu am wasanaethau cymunedol. Yn Nangosyn 6 gwelir mai ychydig o sefydliadau sy'n casglu gwybodaeth am wasanaethau cymunedol a ddarperir gan sefydliadau eraill y GIG ac opsiynau tai. Mae'r nifer sy'n casglu gwybodaeth am amseroedd aros ar gyfer asesu anghenion ac amseroedd aros cyn i wasanaethau gychwyn hefyd yn gymharol brin,

Dangosyn 6: nifer y cyrff iechyd a adroddodd eu bod yn casglu ystod o wybodaeth am wasanaethau cymunedol

Mae'r tabl yn dangos faint o gyrff iechyd sy'n casglu ystod o wybodaeth am wasanaethau cymunedol.

| | Ystod y gwasana-ethau | Argaeledd gwasanaet-hau | Meini Prawf Cymhwy-stra | Y broses atgyfeir-io | Amser aros ar gyfer asesiad anghenion | Amser aros i wasanaethau gychwyn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau cymunedol y Bwrdd Iechyd / yr Ymddiriedolaeth ei hun | 8 | 8 | 9 | 9 | 4 | 4 |
| Gwasanaethau cymunedol a ddarperir gan gyrff eraill y GIG | 3 | 3 | 3 | 3 | 2 | 2 |
| Gwasanaethau gofal cymdeithasol | 9 | 9 | 9 | 10 | 6 | 3 |
| Y Trydydd Sector | 10 | 8 | 10 | 8 | 3 | 2 |
| Opsiynau tai | 4 | 2 | 4 | 6 | 2 | 2 |
| Y Sector annibynnol ee gwelyau mewn cartrefi gofal | 7 | 6 | 9 | 9 | 2 | 2 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth am gynllunio i ryddhau cleifion a ddychwelwyd gan gyrff y GIG yn 2017 (Gweler Troednodyn 8)

61 Gan fod y Ganolfan Ganser yn derbyn cleifion o bob rhan o dde ddwyrain Cymru, mae'n rhaid iddi gysylltu â llawer o wahanol sefydliadau wedi'u lleoli mewn 5 bwrdd iechyd ac 11 o awdurdodau lleol, ynghyd â sawl sefydliad o'r trydydd sector. Mae gan y sefydliadau hyn eu prosesau eu hunain sy'n ychwanegu at gymhlethdod y gwaith a gyflawnir gan staff Felindre.

62 Er mwyn helpu staff nyrsio i wneud y trefniadau priodol i ryddhau cleifion, aeth rhai o nyrsys y Ganolfan Ganser ati i lunio ffeil gyfeirio ar bapur. Mae'r ffeil hon yn cynnwys gwybodaeth am y gwasanaethau cymunedol a ddarperir gan yr Ymddiriedolaeth a chan fyrddau iechyd eraill, y gwasanaethau cymdeithasol a'r trydydd sector. Ystyrir mai'r ffeil hon yw'r canllaw a ddefnyddir gan staff ward wrth gynllunio i ryddhau claf. Mae'r ffeil yn cynnwys copïau o'r gwahanol ffurflenni a manylion cyswllt ar gyfer gwasanaethau'r trydydd sector ac asiantaethau statudol. Mae'r nyrsys yn ei chadw'n gyfredol ac yn ei defnyddio'n rheolaidd. Dywedodd y staff eu bod wedi dewis defnyddio ffeil copi caled yn hytrach na rhoi'r wybodaeth ar gyfrifiadur am ei bod hi'n haws cyrraedd yr wybodaeth a llenwi'r ffurflenni â llaw.

# Rhan 3: Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth ddigon o wybodaeth i fonitro trefniadau rhyddhau cleifion er bod trefniadau atebolrwydd clir wedi'u nodi yn y polisi drafft ar ryddhau cleifion

## Mae'r atebolrwydd dros ryddhau cleifion yn ddiogel a phrydlon yn glir

63 Er mwyn i'r trefniadau fod yn effeithiol, mae angen cael llinellau atebolrwydd clir, a threfniadau rheolaidd i graffu ar berfformiad wrth gynllunio i ryddhau cleifion. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau ffocws parhaus i wella prosesau rhyddhau a chynnal llif cleifion drwy ysbytai.

64 Mae'r atebolrwydd dros ryddhau cleifion wedi'i gofnodi yn y polisi rhyddhau drafft. Y cyfarwyddwr gweithrediadau yw'r arweinydd gweithredol enwebedig, ac mae'n gyfrifol am wneud yn siŵr fod strwythurau a phrosesau ar waith i sicrhau y cynhelir proses ryddhau strwythuredig effeithiol o ansawdd uchel. Bydd yr arweinydd gweithredol yn adrodd wrth Fwrdd yr Ymddiriedolaeth fel bo'r angen. Mae'r pennaeth nyrsio yn gyfrifol am sicrhau bod ei weithlu clinigol yn gallu cyflawni gofynion y polisi a'u bod yn cyflawni'r gofynion hynny. Mae'r pennaeth nyrsio hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod mecanweithiau monitro perfformiad ar waith i warantu'r safonau gwasanaeth uchaf yn gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion, a bod y rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a chamau'n cael eu cymryd os oes angen gwella. Nodir cyfrifoldebau aelodau eraill o staff, gan gynnwys rheolwyr ward, meddygon ymgynghorol ac aelodau eraill o staff clinigol yn glir yn y polisi drafft, ac roedd y staff y buom yn cyfweld â hwy yn deall y cyfrifoldebau hynny.

## Mae'r data ar gyfer craffu ar berfformiad wrth ryddhau cleifion yn brin.

65 I ddibenion monitro ac adrodd, mae'n hanfodol cael yr wybodaeth gywir am berfformiad wrth gynllunio i ryddhau cleifion. Achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal yw'r unig fesuriad cenedlaethol, ar gyfer sefydliadau'r GIG ac awdurdodau lleol, felly bydd byrddau iechyd yn monitro, adrodd a chraffu'n rheolaidd ar y mesuriad hwnnw. Nid oes unrhyw fesurau cenedlaethol eraill yn gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion, ac mae'r wybodaeth am ansawdd ac effeithiolrwydd cynllunio i ryddhau cleifion yn hygyrch.

66 Fodd bynnag, er mwyn deall oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty, dylai sefydliadau'r GIG yn ôl arfer da gael cyfres o fesurau perfformiad, gan gynnwys gwybodaeth am brofiadau a chanlyniadau cleifion yn sgil y broses ryddhau. Gall y rhain fod yn gymysgedd o fesurau meddal a chaled.

67 Yn rhan o'r archwiliad hwn, buom yn edrych ar y math o wybodaeth ynghylch perfformiad cynllunio i ryddhau cleifion, a llif cleifion, a adroddir wrth grwpiau gweithredol a'r Bwrdd fydd o gymorth i fwrw goleuni ar berfformiad cynllunio i ryddhau cleifion, a pha mor rwydd y mae cleifion yn llifo drwy'r system ysbytai. Gwelsom nad oes unrhyw ddangosyddion ar gyfer llif cleifion, rhyddhau cleifion nac achosion o oedi cyn trosglwyddo gofal a adroddir wrth bwyllgor cynllunio a pherfformiad yr Ymddiriedolaeth, nac wrth y Bwrdd.

68 Yn Nangosyn 7 gwelir y nifer fach o gleifion sydd yn profi oedi cyn trosglwyddo gofal dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Oedi o dair wythnos neu lai oedd y saith achos o oedi cyn trosglwyddo gofal a

adroddwyd yn ystod 2015-16 a 2016-17, a darparwyr gofal iechyd neu ddarpariaeth yn y gymuned oedd wrth wraidd yr oedi.

### Dangosyn 7: newid yn nifer yr achosion o oedi cyn trosglwyddo gofal (yn Ymddiriedolaeth GIG Felindre) yn ôl hyd yr oedi rhwng 2015-16 a 2016-17

Mae'r tabl yn dangos bod nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal yn isel iawn.

| Hyd yr oedi | Nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal | |
|---|---|---|
| | 2015-16 | 2016-17 |
| 0-3 wythnos | 4 | 3 |
| 4-6 wythnos | 0 | 0 |
| 7-12 wythnos | 0 | 0 |
| 13-26 wythnos | 0 | 0 |
| 26+ wythnos | 0 | 0 |
| Cyfanswm OwDG | 4 | 3 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o gronfa ddata oedi wrth drosglwyddo gofal GIG Cymru, Mai 2017

69 Mae staff y Ganolfan Ganser yn cydnabod bod unrhyw achos o oedi wrth ryddhau yn broblem i'w chleifion. Gan hynny, mae'r Ganolfan Ganser wedi bod yn annog staff i ddefnyddio'r system Datix i gofnodi unrhyw achos o oedi wrth ryddhau, p'un a yw'n bodloni'r diffiniad cenedlaethol o OwDG ai peidio. Defnyddir yr wybodaeth hon er mwyn mynd i'r afael ar unwaith ag unrhyw resymau dros oedi. Cofnodwyd chwe digwyddiad rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2016, a dau ddigwyddiad arall ym mis Ionawr 2017. Dyma oedd wrth wraidd y digwyddiadau hyn:

- problemau wrth gyrchu'r gwasanaethau cymdeithasol;
- oedi wrth gael meddyginiaethau i fynd adref;
- diffyg capasiti asiantaeth ar ôl cymeradwyo cyllid ar gyfer gofal iechyd parhaus;
- dim capasiti o fewn y Tîm Adnoddau Cymunedol; a'r
- ffaith nad oedd gwely ysbyty ar gael yng nghartref y claf.

70 Ar adeg ein harchwiliad, roedd staff yn bwriadu cynnal adolygiad o'r holl ddigwyddiadau a gofnodwyd ym mis Gorffennaf 2017 er mwyn gweld a oedd patrwm yn dod i'r amlwg o ran oed, a pha gamau pellach y byddai angen eu cymryd.

71 Mae'r Ymddiriedolaeth yn darparu adroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd ar brofiadau cleifion. Ceir lefelau uchel iawn o fodlonrwydd yn ôl yr adroddiadau hyn, ac yn y rhan fwyaf o fisoedd mae cyfradd y bobl sy'n rhoi sgôr o 9/10 neu 10/10 am eu bodlonrwydd cyffredinol yn uwch na'r targed o 80%. Ar ben hynny, ni chafodd y Ganolfan Ganser unrhyw gwynion, boed y rheiny'n ffurfiol neu'n anffurfiol,

ynghylch trefniadau cynllunio i ryddhau cleifion. Mae staff y Ganolfan Ganser yn ymwybodol o'r effaith 'lleugylch' lle gallai rhai cleifion fod yn amharod i feirniadu'r gwasanaethau y maent yn eu derbyn. Er mwyn mynd i'r afael â'r effaith hon, mae'r Ganolfan Ganser wedi bod yn datblygu dulliau o ymgysylltu â chleifion er mwyn sicrhau y gallant gasglu adborth gonest i gefnogi gwelliant.

72 Mae CTCI yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys dangosydd perfformiad (VCC 057) sydd yn gysylltiedig â rhyddhau cleifion. Pwrpas y dangosydd yw cynyddu nifer y cleifion sydd yn marw mewn lleoliad y maent yn ei ffafrio, a chynyddu nifer y cleifion sy'n cyrchu'r man gofal y maent yn ei ffafrio. Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yr Ymddiriedolaeth sy'n gyfrifol am graffu ar y dangosydd hwn. Yn adroddiad y pwyllgor ym mis Ebrill 2017, dyfarnwyd risg a statws gwyrdd i'r dangosydd ac i'r rhagolygon, er na roddwyd unrhyw fanylion am nifer na chyfran y cleifion fu farw mewn lleoliad yr oeddent yn ei ffafrio, nac a gafodd fynediad i'r man gofal yr oeddent yn ei ffafrio.

73 Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod nad yw'n meincnodi ei berfformiad yn erbyn ysbytai canser eraill, ond mae'n cymryd camau i feincnodi perfformiad mewn rhai meysydd fel hyd arosiadau. Bu hefyd yn adolygu'r modd y mae Ysbyty Clatterbridge yn trefnu i ryddhau ei gleifion canser, gan sylwi bod Clatterbridge yn cyflogi ei weithiwr cymdeithasol ei hun.

74 Dyma wybodaeth bellach a allai fod yn ddefnyddiol i ddeall perfformiad wrth gynllunio i ryddhau cleifion, ond nad yw'n cael ei hadrodd gerbron Bwrdd na Phwyllgorau'r Ymddiriedolaeth:

- % y cleifion sy'n cael eu rhyddhau cyn pen 24 awr a chyn pen 72 awr ar ôl cyrraedd 'cyflwr clinigol optimaidd';
- nifer y cleifion sy'n wynebu oedi wrth gael eu trosglwyddo i ysbytai eraill, cartrefi gofal neu eu cartref, a'r rhesymau wrth wraidd hynny; a
- nifer y digwyddiadau Datix a adroddwyd yn gysylltiedig â phroblemau wrth ryddhau.

75 Gofynnwyd i sefydliadau'r GIG pa wybodaeth y gellid ei chasglu am eu systemau gweinyddu cleifion. Yn Nangosyn 8 gwelir bod gan y rhan fwyaf o systemau gweinyddu cleifion y gallu i gipio ystod o ddata er mwyn helpu i gynllunio i ryddhau cleifion. Fodd bynnag, ychydig llai na hanner ohonynt sydd yn cynnwys y gallu i gofnodi a yw proses ryddhau yn syml neu'n gymhleth.

Dangosyn 8: meysydd data ar systemau gweinyddu cleifion sefydliadau'r GIG yn gysylltiedig â'r broses ryddhau

Mae'r tabl yn dangos mai amrywiaeth gyfyng o ddata y gellir ei chofnodi ar y rhan fwyaf o systemau gweinyddu cleifion y GIG yn gysylltiedig â'r broses ryddhau i gefnogi gwaith monitro gweithredol.

| Meysydd data ar systemau gweinyddu cleifion sydd yn gysylltiedig â'r broses ryddhau | Nifer sefydliadau'r GIG sy'n ymateb yn gadarnhaol | Ymateb gan Felindre |
|---|---:|---:|
| Dyddiad rhyddhau disgwyliedig | 12 | Oes |
| Dyddiad rhyddhau o'r ysbyty | 12 | Oes |
| Amser rhyddhau o'r ysbyty | 12 | Oes |
| Cyrchfan ar ôl rhyddhau ee, cartref yr unigolyn, cartref preswyl, cartref gofal ac ati | 12 | Oes |
| Dyddiad datgan bod y claf yn feddygol iach i'w ryddhau | 8 | Nac oes |
| A yw'r achos o ryddhau yn syml neu'n gymhleth | 5 | Nac oes |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth am gynllunio i ryddhau cleifion a ddychwelwyd gan gyrff y GIG yn 2017 (Gweler Troednodyn 8)

76 Mae system gweinyddu cleifion y Ganolfan Ganser - CaNISC - yn cipio pedwar o'r un meysydd data ag y mae systemau sefydliadau eraill y GIG yn eu cipio. Nid yw'r Ganolfan Ganser yn datgan bod cleifion yn feddygol iach i'w rhyddhau oherwydd eu diagnosis ganser, ond mae'n defnyddio'r categori 'cyflwr clinigol optimwm'. Nid yw'r system yn gwahaniaethu rhwng achosion rhyddhau syml a chymhleth.

77 Dywedodd staff y Ganolfan Ganser wrthym fod eu data ar lefel cleifion yn wael. Maent yn defnyddio cofnodion papur a CaNISC fel y system gweinyddu cleifion. Mae CaNISC yn ddefnyddiol ar gyfer rhai pethau, er enghraifft gall staff meddygol a therapi weld yr holl wybodaeth am y claf mewn un man, gan gynnwys canlyniadau sganiau a nodiadau o gyfarfodydd y tîm amlddisgyblaeth. Fodd bynnag, nid yw nyrsys yn defnyddio CaNISC, ac fe gedwir data ar gofnodion papur ac yn CaNISC. Problem arall yn gysylltiedig â CaNISC yw ei bod hi'n anodd cynhyrchu adroddiadau drwy ddefnyddio data ar dderbyn a rhyddhau cleifion. O ganlyniad i hyn, nid oes ganddynt unrhyw ddata a adroddir neu a ddadansoddir.

78 Dywedwyd wrthym fod y Ganolfan Ganser yn disgwyl am ddatrysiad TG Cymru gyfan ar gyfer CaNISC. Mae angen i unrhyw system gweinyddu cleifion newydd allu cipio gwybodaeth er mwyn monitro ac adrodd ar ryddhau, gan fod yn rhaid cloddio drwy gofnodion papur ac electronig er mwyn canfod yr wybodaeth sydd ei hangen i ddibenion archwilio ar hyn o bryd.

## Nid yw aelodau'r bwrdd yn teimlo bod ganddynt ddigon o wybodaeth am berfformiad wrth gynllunio i ryddhau cleifion

79 Ceir prinder gwybodaeth o fewn yr Ymddiriedolaeth i gefnogi gwaith i graffu ar drefniadau cynllunio i ryddhau. Yn rhan o'n gwaith asesu strwythuredig yn 2016, gofynnwyd i aelodau bwrdd ar draws y saith bwrdd iechyd ac Ymddiriedolaeth y GIG Felindre i ba raddau yr oeddent yn cytuno â sawl datganiad ynghylch llif cleifion a chynllunio i ryddhau cleifion. Dyma'r hyn a ganfuom:

- roedd pedwar o wyth o aelodau bwrdd yr Ymddiriedolaeth (50%) naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth i ddeall y ffactorau sy'n effeithio ar lif cleifion, o gymharu â chyfartaledd Cymru o 75%;
- roedd pump o wyth o aelodau bwrdd yr Ymddiriedolaeth (63%) naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn deall y rhesymau dros oedi wrth ryddhau cleifion o ysbytai o fewn y sefydliad, o gymharu â chyfartaledd Cymru o 82%; ac
- roedd un o bob wyth o aelodau bwrdd yr Ymddiriedolaeth (12.5%) yn cytuno bod y Bwrdd a'i bwyllgorau'n craffu'n rheolaidd ar effeithiolrwydd wrth gynllunio i ryddhau cleifion, o gymharu â 56% ar draws Cymru.

80 Yn ôl sylwadau gan aelodau bwrdd yr Ymddiriedolaeth ar y pryd, nid oedd cynllunio i ryddhau cleifion yn cael ei ystyried yn fater o bwys, oherwydd cyn lleied yr achosion o OwDG. Mae'r safbwyntiau hyn yn gyson â safbwyntiau unigolion y cyfarfuom a hwy yn rhan o'r archwiliad hwn. Nid oedd y Bwrdd na'i bwyllgorau'n ystyried bod gwybodaeth am achosion o OwDG yn ddefnyddiol, gan ei bod hi'n anodd canfod tueddiadau mewn niferoedd mor fach. Fodd bynnag, mynegwyd pryder hefyd nad oedd y Bwrdd na'i bwyllgorau yn derbyn digon o wybodaeth am gynllunio i ryddhau cleifion a oedd yn cael ei hystyried yn ddefnyddiol neu'n hawdd ei deall.

# Atodiad 1

## Canfyddiadau meintiol Uned Gyflawni GIG Cymru o archwiliadau o gynlluniau rhyddhau mewn ysbytai acíwt yn ardal de ddwyrain Cymru

Dangosyn 9: statws CAG[15] asesiad yr Uned Gyflawni o dystiolaeth ysgrifenedig mewn nodiadau achos yn erbyn gofynion penodol a nodir yn Passing the Baton[16] mewn ysbytai acíwt ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Mae'r tabl yn dangos bod tystiolaeth ysgrifenedig yn gysylltiedig â'r broses rhyddhau cleifion gan amlaf yn wael ym mis Mehefin 2016, o'i hasesu yn erbyn arferion disgwyliedig.

| Proses rhyddhau | Arferion disgwyliedig | Ysbyty Brenhinol Gwent (YBG) | Ysbyty Neville Hall (YNH) |
|---|---|---|---|
| **Cam 1** Yr holl achosion rhyddhau, cyn pen 24 awr ar ôl derbyn cleifion | Nodir a yw'r broses ryddhau yn syml/gymhleth wrth dderbyn i'r ysbyty, neu'n fuan wedyn. | | |
| | Bydd rhywun yn sgwrsio â'r claf i'w holi sut yr oedd yn ymdopi cyn cael ei dderbyn i'r ysbyty, fel bo modd nodi unrhyw ofynion ar gyfer rhyddhau, a chynllunio ar gyfer hynny, o'r dyddiad derbyn. | | |
| | Bydd rhywun yn sgwrsio â phrif ofalwr y claf (lle bo'n briodol) er mwyn nodi unrhyw ofynion rhyddhau yn fuan ar ôl derbyn y claf i'r ysbyty. | | |
| | Nodir cyflyrau hirdymor wrth dderbyn y claf i'r ysbyty, a sefydlir canfyddiad y claf o'i statws cyfredol. | | |
| | Nodir y trefniadau presennol ar gyfer cydgysylltu gofal a chefnogi yn y gymuned. | | |
| | Darperir gwybodaeth ysgrifenedig i gleifion a'u teuluoedd ynghylch yr hyn y dylent ei ddisgwyl o'r broses ryddhau, a'r hyn a ddisgwylir ganddynt hwythau. | | |
| **Cam 2** Achosion rhyddhau cymhleth | Cynhelir sgyrsiau buan â darparwyr gwasanaeth presennol er mwyn nodi unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg, ac ymdrin â'r materion hynny mewn modd rhagweithiol. | | |
| | Nodi'r cydgysylltydd gofal cyfredol. | | |
| | Mewn achosion rhyddhau cymhleth, bydd y claf a'r gofalwr yn cael manylion cyswllt y gweithiwr proffesiynol a enwebir i weithredu fel eu cydgysylltydd gofal. | | |

[15] Mae'r system goleuadau traffig CAG (coch, ambr, gwyrdd) yn darparu cod lliw i ddangos lle mae perfformiad yn is na'r optimwm.

[16] Gweler Troednodyn 2

| Proses rhyddhau | Arferion disgwyliedig | Ysbyty Brenhinol Gwent (YBG) | Ysbyty Neville Hall (YNH) |
|---|---|---|---|
| | Mewn achosion rhyddhau cymhleth, trefnir cynhadledd achos gan y tîm amlddisgyblaeth i ystyried asesiadau a chytuno ar gynllun rhyddhau gyda'r claf/gofalwr. | | |
| **Cam 3** Bob tro wrth ryddhau | Wedi sefydlu amcan o'r dyddiad rhyddhau (ADRh). | | |
| | Mae'r ADRh yn ystyriol o gamau acíwt ac adsefydlu, lle bo'n berthnasol. | | |
| **Cam 4** Bob tro wrth ryddhau | Cyfathrebir yn glir â'r claf a'i deulu/ofalwyr ynghylch yr ADRh. | | |
| | Caiff cynlluniau rhyddhau eu hadolygu'n ddyddiol, ac fe geir tystiolaeth o gamau a gwblhawyd. | Ceir tystiolaeth fod hyn yn digwydd ond dim ond yn 35% (YBG) ac 16% (YNH) o'r nodiadau achos a adolygwyd y gwelwyd tystiolaeth bod ADRh wedi'i gofnodi. | |
| | Nodir cyfyngiadau posibl a gweithredir yn eu sgil/cyfeirir y materion hynny i lefel uwch | | |
| | Mae'r claf a'i deulu/ofalwyr yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am gynnydd y cynllun rhyddhau. | | |
| | Cyfathrebir yn glir â'r claf a'i deulu/ofalwyr ynghylch yr ADRh. | | |
| Achosion rhyddhau cymhleth | Ystyrir llwybrau amgen yn y gymuned er mwyn hwyluso rhyddhau ynghynt a chynyddu annibyniaeth hyd yr eithaf.<br>Ystyrir y model 'rhyddhau/trosglwyddo' i asesu ym mhob achos rhyddhau cymhleth. | | |
| | Y cydgysylltydd gofal yn casglu asesiad amserol gan y tîm amlddisgyblaeth. | | |
| | Caiff cynllun rhyddhau ei ddylunio'n arbennig gyda'r claf/gofalwr, gan adlewyrchu cryfderau'r claf a'r hyn sydd bwysicaf iddo. | | |
| | Ystyrir darpariaeth y trydydd sector lle bo'n briodol. | | |
| | Lle bo angen, trefnir cyfarfodydd amlddisgyblaeth mewn modd amserol (ee, i drafod y lleoliad nesaf a phennu cymhwystra CIC). | | |
| | Os oes angen lleoliad mewn cartref gofal, rhoddir gwybodaeth glir i'r claf a'r gofalwr am gategori'r cartref gofal y dylent fod yn chwilio amdano'. | | |
| | Gwybodaeth am gartrefi gofal yn yr ardal. | | |
| | Gwybodaeth am y Polisi Dewis | | |
| | Gwybodaeth am sut y gallant gael cymorth i chwilio am gartref addas os oes angen hynny (ee, y trydydd sector) | | |

| Proses rhyddhau | Arferion disgwyliedig | Ysbyty Brenhinol Gwent (YBG) | Ysbyty Neville Hall (YNH) |
|---|---|---|---|
| **Cam 5** Bob tro wrth ryddhau | Cwblheir rhestr wirio er mwyn sicrhau bod yr holl agweddau ymarferol yn gysylltiedig â rhyddhau wedi'u hystyried. | | |

Ffynhonnell: Uned Gyflawni GIG Cymru, Archwiliad o'r Trefniadau i Ryddhau Cleifion ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Mehefin 2016

Dangosyn 10: statws CAG asesiad yr Uned Gyflawni o dystiolaeth ysgrifenedig mewn nodiadau achos yn erbyn gofynion penodol a nodir yn Passing the Baton mewn ysbytai acíwt ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Mae'r tabl yn dangos bod perfformiad yn gysylltiedig â'r broses rhyddhau yn amrywio ac fel arfer yn wael ym mis Chwefror o'i asesu yn erbyn arferion disgwyliedig.

| Proses rhyddhau | Arferion disgwyliedig | Ysbyty Athrofaol Cymru | Ysbyty Athrofaol Llandochau |
|---|---|---|---|
| **Cam 1** Yr holl achosion rhyddhau, cyn pen 24 awr ar ôl derbyn cleifion | Nodir a yw'r broses ryddhau yn syml/gymhleth wrth dderbyn i'r ysbyty, neu'n fuan wedyn. | | |
| | Bydd rhywun yn sgwrsio â'r claf i'w holi sut yr oedd yn ymdopi cyn cael ei dderbyn i'r ysbyty, fel bo modd nodi unrhyw ofynion ar gyfer rhyddhau, a chynllunio ar gyfer hynny, o'r dyddiad derbyn. | | |
| | Bydd rhywun yn sgwrsio â phrif ofalwr y claf (lle bo'n briodol) er mwyn nodi unrhyw ofynion rhyddhau yn fuan ar ôl derbyn y claf i'r ysbyty. | | |
| | Nodir cyflyrau hirdymor wrth dderbyn y claf i'r ysbyty, a sefydlir canfyddiad y claf o'i statws cyfredol. | | |
| | Nodir y trefniadau presennol ar gyfer cydgysylltu gofal a chefnogi yn y gymuned. | | |
| | Darperir gwybodaeth ysgrifenedig i gleifion a'u teuluoedd ynghylch yr hyn y dylent ei ddisgwyl o'r broses ryddhau, a'r hyn a ddisgwylir ganddynt hwythau. | | |
| **Cam 2** Achosion rhyddhau cymhleth | Cynhelir sgyrsiau buan â darparwyr gwasanaeth presennol er mwyn nodi unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg, ac ymdrin â'r materion hynny mewn modd rhagweithiol. | | |
| | Nodi'r cydgysylltydd gofal cyfredol. | | |
| | Mewn achosion rhyddhau cymhleth, bydd y claf a'r gofalwr yn cael manylion cyswllt y gweithiwr proffesiynol a enwebir i weithredu fel eu cydgysylltydd gofal. | | |

| Proses rhyddhau | Arferion disgwyliedig | Ysbyty Athrofaol Cymru | Ysbyty Athrofaol Llandochau |
|---|---|---|---|
| | Mewn achosion rhyddhau cymhleth, trefnir cynhadledd achos gan y tîm amlddisgyblaeth i ystyried asesiadau a chytuno ar gynllun rhyddhau gyda'r claf/gofalwr. | | |
| **Cam 3** Bob tro wrth rhyddhau | Wedi sefydlu amcan o'r dyddiad rhyddhau (ADRh). | | |
| | Mae'r ADRh yn ystyriol o gamau acíwt ac adsefydlu, lle bo'n berthnasol. | | |
| **Cam 4** Bob tro wrth ryddhau | Cyfathrebir yn glir â'r claf a'i deulu/ofalwyr ynghylch yr ADRh. | | |
| | Caiff cynlluniau rhyddhau eu hadolygu'n ddyddiol, ac fe geir tystiolaeth o gamau a gwblhawyd. | Ceir tystiolaeth fod hyn yn digwydd ond dim ond yn 22% i 24% o'r nodiadau achos a adolygwyd y gwelwyd tystiolaeth bod ADRh wedi'i gofnodi. | |
| | Nodir cyfyngiadau posibl a gweithredir yn eu sgil/cyfeirir y materion hynny i lefel uwch | | |
| | Mae'r claf a'i deulu/ofalwyr yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am gynnydd y cynllun rhyddhau. | | |
| | Cyfathrebir yn glir â'r claf a'i deulu/ofalwyr ynghylch yr ADRh. | | |
| Achosion rhyddhau cymhleth | Ystyrir llwybrau amgen yn y gymuned er mwyn hwyluso rhyddhau ynghynt a chynyddu annibyniaeth hyd yr eithaf. | | |
| | Ystyrir y model 'rhyddhau/trosglwyddo' i asesu ym mhob achos rhyddhau cymhleth. | | |
| | Y cydgysylltydd gofal yn casglu asesiad amserol gan y tîm amlddisgyblaeth. | | |
| | Caiff cynllun rhyddhau ei ddylunio'n arbennig gyda'r claf/gofalwr, gan adlewyrchu cryfderau'r claf a'r hyn sydd bwysicaf iddo. | | |
| | Ystyrir darpariaeth y trydydd sector lle bo'n briodol. | | |
| | Lle bo angen, trefnir cyfarfodydd amlddisgyblaeth mewn modd amserol (ee, i drafod y lleoliad nesaf a phennu cymhwystra CIC). | | |
| | Os oes angen lleoliad mewn cartref gofal, rhoddir gwybodaeth glir i'r claf a'r gofalwr am gategori'r cartref gofal y dylent fod yn chwilio amdano. | | Ddim yn berthnasol, gan nad oedd angen lleoliad newydd mewn cartref gofal ar gyfer unrhyw un o'r achosion. |
| | Gwybodaeth am gartrefi gofal yn yr ardal. | | |
| | Gwybodaeth am y Polisi Dewis | | |
| | Gwybodaeth am sut y gallant gael cymorth i chwilio am gartref addas os oes angen hynny (ee, y trydydd sector) | | |

| Proses ryddhau | Arferion disgwyliedig | Ysbyty Athrofaol Cymru | Ysbyty Athrofaol Llandochau |
|---|---|---|---|
| **Cam 5** Bob tro wrth ryddhau | Cwblheir rhestr wirio er mwyn sicrhau bod yr holl agweddau ymarferol yn gysylltiedig â rhyddhau wedi'u hystyried. | | |

Ffynhonnell: Uned Gyflawni GIG Cymru, Archwiliad o'r Trefniadau i Ryddhau Cleifion ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Chwefror 2016

Dangosyn 11: statws CAG asesiad yr Uned Gyflawni o dystiolaeth ysgrifenedig mewn nodiadau achos yn erbyn gofynion penodol a nodir yn Passing the Baton mewn ysbytai acíwt ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

Mae'r tabl yn dangos bod tystiolaeth ysgrifenedig yn gysylltiedig â'r broses rhyddhau cleifion gan amlaf yn wael ym mis Mehefin 2016, o'i hasesu yn erbyn arferion disgwyliedig.

| Proses ryddhau | Arferion disgwyliedig | Ysbyty Brenhinol Morgannwg | Ysbyty'r Tywysog Siarl |
|---|---|---|---|
| **Cam 1** Yr holl achosion rhyddhau, cyn pen 24 awr ar ôl derbyn cleifion | Nodir a yw'r broses ryddhau yn syml/gymhleth wrth dderbyn i'r ysbyty, neu'n fuan wedyn. | | |
| | Bydd rhywun yn sgwrsio â'r claf i'w holi sut yr oedd yn ymdopi cyn cael ei dderbyn i'r ysbyty, fel bo modd nodi unrhyw ofynion ar gyfer rhyddhau, a chynllunio ar gyfer hynny, o'r dyddiad derbyn. | | |
| | Bydd rhywun yn sgwrsio â phrif ofalwr y claf (lle bo'n briodol) er mwyn nodi unrhyw ofynion rhyddhau yn fuan ar ôl derbyn y claf i'r ysbyty. | | |
| | Nodir cyflyrau hirdymor wrth dderbyn y claf i'r ysbyty, a sefydlir canfyddiad y claf o'i statws cyfredol. | | |
| | Nodir y trefniadau presennol ar gyfer cydgysylltu gofal a chefnogi yn y gymuned. | | |
| | Darperir gwybodaeth ysgrifenedig i gleifion a'u teuluoedd ynghylch yr hyn y dylent ei ddisgwyl o'r broses ryddhau, a'r hyn a ddisgwylir ganddynt hwythau. | | |
| **Cam 2** Achosion rhyddhau cymhleth | Cynhelir sgyrsiau buan â darparwyr gwasanaeth presennol er mwyn nodi unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg, ac ymdrin â'r materion hynny mewn modd rhagweithiol. | | |
| | Nodi'r cydgysylltydd gofal cyfredol. | | |
| | Mewn achosion rhyddhau cymhleth, bydd y claf a'r gofalwr yn cael manylion cyswllt y gweithiwr proffesiynol a enwebir i weithredu fel eu cydgysylltydd gofal. | | |

| Proses rhyddhau | Arferion disgwyliedig | Ysbyty Brenhinol Morgannwg | Ysbyty'r Tywysog Siarl |
|---|---|---|---|
| | Mewn achosion rhyddhau cymhleth, trefnir cynhadledd achos gan y tîm amlddisgyblaeth i ystyried asesiadau a chytuno ar gynllun rhyddhau gyda'r claf/gofalwr. | | |
| **Cam 3**<br>Bob tro wrth rhyddhau | Wedi sefydlu amcan o'r dyddiad rhyddhau (ADRh). | | |
| | Mae'r ADRh yn ystyriol o gamau acíwt ac adsefydlu, lle bo'n berthnasol. | | |
| **Cam 4**<br>Bob tro wrth rhyddhau | Cyfathrebir yn glir â'r claf a'i deulu/ofalwyr ynghylch yr ADRh. | | |
| | Caiff cynlluniau rhyddhau eu hadolygu'n ddyddiol, ac fe geir tystiolaeth o gamau a gwblhawyd. | Ceir tystiolaeth fod hyn yn digwydd ond dim ond ym mhumed ran o'r nodiadau achos a adolygwyd y gwelwyd tystiolaeth bod ADRh wedi'i gofnodi. | |
| | Nodir cyfyngiadau posibl a gweithredir yn eu sgil/cyfeirir y materion hynny i lefel uwch | | |
| | Mae'r claf a'i deulu/ofalwyr yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am gynnydd y cynllun rhyddhau. | | |
| | Cyfathrebir yn glir â'r claf a'i deulu/ofalwyr ynghylch yr ADRh. | | |
| Achosion rhyddhau cymhleth | Ystyrir llwybrau amgen yn y gymuned er mwyn hwyluso rhyddhau ynghynt a chynyddu annibyniaeth hyd yr eithaf. | | |
| | Ystyrir y model 'rhyddhau/trosglwyddo' i asesu ym mhob achos rhyddhau cymhleth. | | |
| | Y cydgysylltydd gofal yn casglu asesiad amserol gan y tîm amlddisgyblaeth. | | |
| | Caiff cynllun rhyddhau ei ddylunio'n arbennig gyda'r claf/gofalwr, gan adlewyrchu cryfderau'r claf a'r hyn sydd bwysicaf iddo. | | |
| | Ystyrir darpariaeth y trydydd sector lle bo'n briodol. | | |
| | Lle bo angen, trefnir cyfarfodydd amlddisgyblaeth mewn modd amserol (ee, i drafod y lleoliad nesaf a phennu cymhwystra CIC). | Amherthnasol | |
| | Os oes angen lleoliad mewn cartref gofal, rhoddir gwybodaeth glir i'r claf a'r gofalwr am gategori'r cartref gofal y dylent fod yn chwilio amdano. | Amherthnasol | |
| | Gwybodaeth am gartrefi gofal yn yr ardal. | Amherthnasol | |
| | Gwybodaeth am y Polisi Dewis | Amherthnasol | |
| | Gwybodaeth am sut y gallant gael cymorth i chwilio am gartref addas os oes angen hynny (ee, y trydydd sector) | Amherthnasol | |

| Proses ryddhau | Arferion disgwyliedig | Ysbyty Brenhinol Morgannwg | Ysbyty'r Tywysog Siarl |
|---|---|---|---|
| **Cam 5** Bob tro wrth ryddhau | Cwblheir rhestr wirio er mwyn sicrhau bod yr holl agweddau ymarferol yn gysylltiedig â rhyddhau wedi'u hystyried. | | |

Ffynhonnell: Uned Gyflawni GIG Cymru, Archwiliad o'r Trefniadau i Ryddhau Cleifion ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, Mehefin 2016

Dangosyn 12: statws CAG asesiad yr Uned Gyflawni o dystiolaeth ysgrifenedig mewn nodiadau achos yn erbyn gofynion penodol a nodir yn Passing the Baton mewn ysbytai cymunedol ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys

Mae'r tabl yn dangos bod tystiolaeth ysgrifenedig yn gysylltiedig â'r broses rhyddhau cleifion yn amrywio o'i hasesu yn erbyn arferion disgwyliedig

| Proses ryddhau | Arferion disgwyliedig | Ysbytai cymunedol |
|---|---|---|
| **Cam 1** Yr holl achosion rhyddhau, cyn pen 24 awr ar ôl derbyn cleifion | Nodir a yw'r broses ryddhau yn syml/gymhleth wrth dderbyn i'r ysbyty, neu'n fuan wedyn. | |
| | Bydd rhywun yn sgwrsio â'r claf i'w holi sut yr oedd yn ymdopi cyn cael ei dderbyn i'r ysbyty, fel bo modd nodi unrhyw ofynion ar gyfer rhyddhau, a chynllunio ar gyfer hynny, o'r dyddiad derbyn. | |
| | Bydd rhywun yn sgwrsio â phrif ofalwr y claf (lle bo'n briodol) er mwyn nodi unrhyw ofynion rhyddhau yn fuan ar ôl derbyn y claf i'r ysbyty. | |
| | Nodir cyflyrau hirdymor wrth dderbyn y claf i'r ysbyty, a sefydlir canfyddiad y claf o'i statws cyfredol. | |
| | Nodir y trefniadau presennol ar gyfer cydgysylltu gofal a chefnogi yn y gymuned. | |
| | Darperir gwybodaeth ysgrifenedig i gleifion a'u teuluoedd ynghylch yr hyn y dylent ei ddisgwyl o'r broses ryddhau, a'r hyn a ddisgwylir ganddynt hwythau. | |
| **Cam 2** Achosion rhyddhau cymhleth | Cynhelir sgyrsiau buan â darparwyr gwasanaeth presennol er mwyn nodi unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg, ac ymdrin â'r materion hynny mewn modd rhagweithiol. | |
| | Nodi'r cydgysylltydd gofal cyfredol. | |
| | Mewn achosion rhyddhau cymhleth, bydd y claf a'r gofalwr yn cael manylion cyswllt y gweithiwr proffesiynol a enwebir i weithredu fel eu cydgysylltydd gofal. | |
| | Mewn achosion rhyddhau cymhleth, trefnir cynhadledd achos gan y tîm amlddisgyblaeth i ystyried asesiadau a chytuno ar gynllun rhyddhau gyda'r claf/gofalwr. | |

| Proses rhyddhau | Arferion disgwyliedig | Ysbytai cymunedol |
|---|---|---|
| **Cam 3** Bob tro wrth ryddhau | Wedi sefydlu amcan o'r dyddiad rhyddhau (ADRh). | |
| | Mae'r ADRh yn ystyriol o gamau acíwt ac adsefydlu, lle bo'n berthnasol. | |
| **Cam 4** Bob tro wrth ryddhau | Cyfathrebir yn glir â'r claf a'i deulu/ofalwyr ynghylch yr ADRh. | |
| | Caiff cynlluniau rhyddhau eu hadolygu'n ddyddiol, ac fe geir tystiolaeth o gamau a gwblhawyd. | |
| | Nodir cyfyngiadau posibl a gweithredir yn eu sgil/cyfeirir y materion hynny i lefel uwch | |
| | Mae'r claf a'i deulu/ofalwyr yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am gynnydd y cynllun rhyddhau. | |
| Achosion rhyddhau cymhleth | Ystyrir llwybrau amgen yn y gymuned er mwyn hwyluso rhyddhau ynghynt a chynyddu annibyniaeth hyd yr eithaf. | |
| | Ystyrir y model 'rhyddhau/trosglwyddo' i asesu ym mhob achos rhyddhau cymhleth. | |
| | Y cydgysylltydd gofal yn casglu asesiad amserol gan y tîm amlddisgyblaeth. | |
| | Caiff cynllun rhyddhau ei ddylunio'n arbennig gyda'r claf/gofalwr, gan adlewyrchu cryfderau'r claf a'r hyn sydd bwysicaf iddo. | |
| | Ystyrir darpariaeth y trydydd sector lle bo'n briodol. | |
| | Lle bo angen, trefnir cyfarfodydd amlddisgyblaeth mewn modd amserol (ee, i drafod y lleoliad nesaf a phennu cymhwystra CIC). | |
| | Os oes angen lleoliad mewn cartref gofal, rhoddir gwybodaeth glir i'r claf a'r gofalwr am gategori'r cartref gofal y dylent fod yn chwilio amdano. | |
| | Gwybodaeth am gartrefi gofal yn yr ardal. | |
| | Gwybodaeth am y Polisi Dewis | |
| | Gwybodaeth am sut y gallant gael cymorth i chwilio am gartref addas os oes angen hynny (ee, y trydydd sector) | |
| **Cam 5** Bob tro wrth ryddhau | Cwblheir rhestr wirio er mwyn sicrhau bod yr holl agweddau ymarferol yn gysylltiedig â rhyddhau wedi'u hystyried. | |

Ffynhonnell: Uned Gyflawni GIG Cymru, Archwiliad o'r Trefniadau i Ryddhau Cleifion ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys, 2016

# Atodiad 2

## Dull archwilio

Cynhaliwyd ein hadolygiad o gynlluniau rhyddhau cleifion ledled Cymru rhwng mis Chwefror a mis Mehefin 2017. Nodir manylion ein dull o archwilio isod.

Dangosyn 13: methodoleg archwilio

Mae'r tabl yn dangos ystod y gweithgareddau a gyflawnwyd yn rhan o'r broses archwilio.

| Dull | Manylion |
|---|---|
| Ffurflen Casglu Data – Cynllunio i Ryddhau Cleifion (Gwybodaeth ar lefel yr Ymddiriedolaeth) | Ceisiwyd gwybodaeth ar lefel gorfforaethol ynghylch y graddau y rhennir blaenoriaethau wrth ryddhau cleifion a throsglwyddo gofal; y gwasanaethau neu'r timau sydd ar gael i gefnogi rhyddhau cleifion yn brydlon; tirlun gwasanaethau cymunedol; hyfforddiant i gefnogi'r broses o gynllunio i ryddhau cleifion; rheoli perfformiad yn gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion; a'r graddau y rhennir gwybodaeth am wasanaethau addasu tai â sefydliadau'r GIG. Defnyddiwyd yr wybodaeth a ddychwelwyd i gefnogi'r archwiliad cynllunio i ryddhau cleifion, ac astudiaeth yr Archwilydd Cyffredinol o addasiadau tai.<br>Cwblhaodd a chyflwynodd y Bwrdd Iechyd y ffurflen casglu data. |
| Ffurflen Casglu Data – Lolfa Ryddhau | Gofynnwyd i sefydliadau'r GIG a oedd yn gweithredu gwasanaethau lolfa ryddhau i ddisgrifio pob lolfa ryddhau. Gofynnwyd am yr oriau gweithredu, y proffil staffio, nifer y cleifion yr oedd y lolfa yn ei gynnwys a'r amgylchedd i gleifion.<br>Ni chyflwynodd yr Ymddiriedolaeth ffurflen gan nad oes ganddi unrhyw lolfa ryddhau. |
| Ffurflen Casglu Data – Tîm Cyswllt Rhyddhau Cleifion. | Gofynnwyd i sefydliadau'r GIG sôn wrthym am y tîm cyswllt rhyddhau os oedd y timau hynny i'w cael. Gofynnwyd am wybodaeth ynghylch oriau gweithredu, y proffil staffio, costau'r tîm/gwasanaeth a natur ei weithgarwch.<br>Lle'r oedd sawl tîm cyswllt rhyddhau yn gweithredu, byddai un ffurflen yn cael ei llenwi ar gyfer pob prif ysbyty acíwt os oedd y timau'n gweithredu'n annibynnol ar ei gilydd. Os oedd y tîm cyswllt rhyddhau cleifion yn gweithredu fel un gwasanaeth integredig, byddai un ffurflen yn cael ei chwblhau.<br>Ni chyflwynodd yr Ymddiriedolaeth ffurflen gan nad oes ganddi dîm cyswllt rhyddhau. |

| Dull | Manylion |
|---|---|
| Cais am ddogfennau | Buom yn adolygu dogfennau gan yr Ymddiriedolaeth a drafodai strategaethau a chynlluniau ar gyfer rheoli llif cleifion a gofal heb ei drefnu, polisïau'n gysylltiedig â rhyddhau cleifion, trosglwyddo gofal a dewis cartref, llwybrau rhyddhau, cynlluniau gweithredu i wella prosesau cynllunio i ryddhau cleifion a llif cleifion ac adroddiadau ar berfformiad, gan gynnwys rhai'n gysylltiedig â phrofiad y claf neu wybodaeth am gwynion a digwyddiadau'n gysylltiedig â phrosesau rhyddhau. |
| Cyfweliadau | Buom yn cyfweld â'r aelodau canlynol o staff:<br>• Cyfarwyddwr Meddygol<br>• Cyfarwyddwr Gweithrediadau<br>• Cyfarwyddwr Nyrsio<br>• Pennaeth Nyrsio<br>• Arweinydd Nyrsio Gofal Cefnogol<br>• Rheolwr Ward<br>• Arweinydd Therapi Galwedigaethol<br>• Arweinydd Gofal Lliniarol<br>• Fferyllydd<br>• Aelod Annibynnol â chyfrifoldeb dros ansawdd a diogelwch<br>• Arweinydd Profiadau'r Claf<br>• Swyddog o'r Cyngor Iechyd Cymunedol |
| Defnydd o ddata presennol | Defnyddiwyd ffynonellau gwybodaeth sy'n bodoli eisoes, lle'r oedd hynny'n bosibl, fel gwaith yr Uned Gyflawni o 2016 ar gynllunio i ryddhau cleifion, data o wefan StatsCymru ar gyfer nifer yr achosion o oedi cyn trosglwyddo gofal, gwelyau ysbyty, staff, derbyniadau, cleifion sy'n treulio 12 awr neu fwy mewn adrannau damweiniau ac achosion brys a hyd arosiadau. |

# Atodiad 3

## Ymateb rheolwyr yr Ymddiriedolaeth i'r argymhellion

Cynhwysir ymateb rheolwyr yr Ymddiriedolaeth ar ôl i'r templed gael ei gwblhau. Bydd yr atodiad yn rhan o'r adroddiad terfynol a gyhoeddir ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru ar ôl i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol ystyried yr adroddiad.

Dangosyn 14: Ymateb y Rheolwyr

Mae'r tabl yn dangos argymhellion yr adroddiad a'r camau y mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu eu cymryd i ymdrin â'r rhain.

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad / budd a fwriadwyd | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (do/naddo) | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A1 | **Datblygu'r polisi rhyddhau cleifion:** Mae'r Ganolfan Ganser yn datblygu polisi newydd ar gyfer rhyddhau cleifion. Er ei fod yn ddrafft cyntaf cadarnhaol, gallai'r Ymddiriedolaeth ychwanegu sawl agwedd er mwyn cefnogi proses ryddhau cleifion diogel ac amserol. Dyma nhw: | Polisïau a gweithdrefnau clir sy'n gallu cefnogi cynlluniau rhyddhau effeithiol. | Ydy | Do | Mae'r drafft a gafodd ei adolygu yn rhan o'r broses archwilio wedi'i ddatblygu ymhellach ac yn ystyriol o'r argymhellion a wnaed yn A1. | 13/10/17 | L Padwick, Arweinydd Gwella Gwasanaethau Cleifion Mewnol |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad / budd a fwriadwyd | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (do/naddo) | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | a. Yn yr adran ar Berchenogaeth a Chyfrifoldebau:<br>• nodi rôl y 'nyrs ryddhau' sy'n gyfrifol am drefnu i ryddhau cleifion;<br>• nodi rôl y tîm gofal lliniarol wrth gynllunio i ryddhau cleifion; ac<br>• ychwanegu mwy o fanylion ynghylch pwy sy'n gyfrifol am y broses uwchgyfeirio pan fydd perygl i'r claf wynebu oedi cyn cael ei ryddhau. | | | | | | |
| | b. Ychwanegu adran ar y broses ar gyfer rheoli cleifion y gellid tybio eu bod yn agored i niwed oherwydd amgylchiadau cymdeithasol fel digartrefedd. | | | Do | Wedi'i gwblhau eisoes | 4/9/17 | L Padwick, Arweinydd Gwella Gwasanaethau Cleifion Mewnol |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad / budd a fwriadwyd | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (do/naddo) | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | c. Ychwanegu adran ar gyfer y cleifion hynny sy'n bodloni'r diffiniad o oedolyn sy'n agored i niwed o dan Bolisi a Gweithdrefnau Interim Cymru ar gyfer Amddiffyn Oedolion Hawdd eu Niweidio rhag cael eu Cam-drin (2010). | | | Do | Wedi'i gwblhau eisoes | 4/9/17 | L Padwick, Arweinydd Gwella Gwasanaethau Cleifion Mewnol |
| | d. Cofnodi'r gofyniad i'r tîm gofal cefnogol atgyfeirio'r holl gleifion i dderbyn asesiad gofalwr ffurfiol. | | | Do | Ar y gweill | 1/1/18 | M Pengelly, Nyrs Arweiniol Gofal Cefnogol |
| | e. Rhoi diffiniad manylach o bob categori rhyddhau, gan gynnwys siart lif neu goeden benderfyniadau er mwyn dewis y llwybr rhyddhau mwyaf priodol. | | | Do | Ar y gweill | 1/11/17 | L Padwick, Arweinydd Gwella Gwasanaethau Cleifion Mewnol |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad / budd a fwriadwyd | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (do/naddo) | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | f. Cyfeirio mewn modd eglur at y ffeil o wybodaeth a ffurflenni rhyddhau cleifion, a ddatblygwyd gan staff ward ac a ddefnyddir yn llwyddiannus i gefnogi'r broses ryddhau. | | | Do | Ar y gweill | 1/11/17 | L Padwick, Arweinydd Gwella Gwasanaethau Cleifion Mewnol |
| | g. Cofnodi'r weithdrefn ar gyfer cadw'r ffeil o wybodaeth a ffurflenni rhyddhau yn gyfredol. | | | Do | Ychwanegwyd at rôl y Cydgysylltydd Rhyddhau | 1/11/17 | L Padwick, Arweinydd Gwella Gwasanaethau Cleifion Mewnol |
| | h. Datblygu'r adran ar reoli meddyginiaethau ymhellach i gynnwys rôl fferyllwyr yn y broses ryddhau. | | | Do | Wedi'i gwblhau eisoes | 29/9/17 | L Padwick, Arweinydd Gwella Gwasanaethau Cleifion Mewnol |
| | i. Darparu hyfforddiant ar y polisi i staff yn y tîm amlddisgyblaeth ar ôl iddo gael ei gwblhau. | | | Do | Ar y gweill | 1/12/17 | L Padwick, Arweinydd Gwella Gwasanaethau Cleifion Mewnol |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad / budd a fwriadwyd | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (do/naddo) | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A2 | **Ymgynghoriad ar ddrafft y polisi rhyddhau cleifion:** Er bod y Polisi Rhyddhau Cleifion yn dal ar ffurf drafft, dylai'r Ymddiriedolaeth rannu'r drafft hwnnw er mwyn iddo gynnwys safbwyntiau rhanddeiliaid allweddol, yn enwedig:<br>• nyrsys ardal wedi'u lleoli mewn byrddau iechyd lleol;<br>• staff arweiniol o fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am storfeydd cyfarpar; a<br>• chleifion a gofalwyr. | Sicrhau bod y polisi'n adlewyrchu safbwyntiau rhanddeiliaid allweddol | Ydy | Do (gyda rhybudd) | Oherwydd ei sefyllfa unigryw, mae'n rhaid i Ganolfan Ganser Felindre gydweithio â'r hol Fyrddau Iechyd. Bydd gan bob un ohonynt ffyrdd gwahanol o weithio, a gall dulliau o weithio weithiau amrywio mewn gwahanol ardaloedd o fewn Bwrdd Iechyd, o ran gwasanaethau a chyfarpar. Mae'n anymarferol ceisio sefydlu consensws cyffredinol. Byddwn yn:<br>• cynnal archwiliad i ddangos faint o amser mae'n ei gymryd i gael cyfarpar;<br>• cysylltu ag Aneurin Bevan ynghylch peilot posibl fyddai'n galluogi therapyddion galwedigaethol CG Felindre i gyrchu cyfarpar yn uniongyrchol yn hytrach na thrwy'r Bwrdd Iechyd;<br>• gofyn am adborth y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Nyrsys Ardal o Fwrdd | 1/1/18 | L Padwick, Arweinydd Gwella Gwasanaethau Cleifion Mewnol.<br>M Pengelly, Nyrs Arweiniol Gofal Cefnogol<br>K Johnson, Therapydd Galwedigaethol Arweiniol Clinigol |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad / budd a fwriadwyd | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (do/naddo) | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Iechyd cyfagos Caerdydd a'r Fro;<br>• ymdrinnir â Chytundebau Lefel Gwasanaeth yn 2018 ynghylch mynediad at gyfarpar; a<br>• bydd y polisi'n cael ei gyflwyno gerbron y Grŵp Cyswllt Cleifion a'r Grŵp Urddas Cleifion er mwyn cael adborth.<br>• Bydd y polisi'n cael ei ychwanegu at Wefan yr Ymddiriedolaeth a bydd modd i weithwyr proffesiynol a'r cyhoedd ei weld. | | |
| A3 | **Gwybodaeth ar gyfer monitro trefniadau rhyddhau cleifion**: Ni fydd gwybodaeth am achosion o oedi cyn trosglwyddo gofal (OwDG) yn cael ei hadrodd wrth y Bwrdd yn aml, gan fod y niferoedd yn isel. Yn ychwanegol at adrodd ar y DPA i gynyddu nifer y cleifion sydd yn marw mewn lleoliad | Bydd cael mwy o fanylion am achosion rhyddhau problemus yn cynnig cyfle i wella'r broses. | Ydy | Do | Mae'r grŵp rhyddhau wedi cwrdd â'n tîm Datix er mwyn helpu i fireinio ein proses cipio data er mwyn ystyried y DPA a nodir yn yr adroddiad hwn. | 19/10/17 | M Pengelly, Nyrs Arweiniol Gofal Cefnogol |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad / budd a fwriadwyd | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (do/naddo) | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | o'u dewis a chynyddu nifer y cleifion sy'n cael mynediad i'r man gofal y maent yn eu ffafrio, dylai'r Ymddiriedolaeth ystyried casglu ac adrodd yr wybodaeth ganlynol gerbron y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch:<br>a. % y cleifion sy'n cael eu rhyddhau cyn pen 24 awr a chyn pen 72 awr ar ôl cyrraedd 'cyflwr clinigol optimaidd';<br>b. nifer yr achosion o oedi cyn trosglwyddo cleifion i ysbytai eraill, cartrefi gofal neu eu cartref; a<br>c. phroblemau wrth ryddhau cleifion fel y'u cofnodir ar system diogelwch cleifion Datix. | | | | | | |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad / budd a fwriadwyd | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (do/naddo) | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A4 | **Data rhyddhau cleifion o'r system gweinyddu cleifion:** Nid yw'r system gyfredol, CaNISC, yn cynnwys y cyfleuster i gipio data ynghylch natur achosion rhyddhau, nac achosion o oedi wrth ryddhau. Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau y gall unrhyw system gweinyddu cleifion newydd gipio gwybodaeth er mwyn monitro ac adrodd ar berfformiad yn gysylltiedig â phrosesau a chynlluniau rhyddhau cleifion. | Dealltwriaeth well o berfformiad y gwasanaeth i lywio a chefnogi gwelliant parhaus. | | Do | Mae datrysiad yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd i ddisodli CaNISC yn rhan o'r CTCI ar gyfer Technoleg a Rheoli Gwybodaeth.<br><br>Byddwn yn sicrhau cynnwys y gofyniad hwn yn y fanyleb.<br>Fodd bynnag, mae unrhyw ddatblygiadau i CaNISC yn dibynnu ar dibyniaethau allanol a allai achosi oedi yn y datblygiadau. | 1/11/2019 | |

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales